

LLYFR DEL:

RHODD

OWEN EDWARDS.



HUGHES & SON

CYHOEDDWR

WREXHAM


U.S. Census
Tribal Tax. $\frac{13}{25}$
North America





LLYFR DEL.





LLYFR DEL:

RHODD OWEN EDWARDS.

GYDA

GEIRFA

GAN

JOHN THOMAS, B.A.,

YSGOL GANOLRADDOL TREDEGAR.



WRECSAM

HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWYR

1927

GAN YR UN AWDUR

LLYFR DEL. Llain, 2/-

LLYFR NEST: Llain, 2/-

LLYFR OWEN. Llain, 2/-

LLYFR HAF. Llain, 2/-

CARTREFI CYMRU. Llain, 2/-

YSTRAEON O HANES CYMRU

Llain Ystwyth, 1/3.

Cyfres Gwerin Cymru

Llain Unflert, 2/6 yr un.

CLYCH ATGOF.

YN Y WLAD.

TRO YN LLYDAW.

ER MWYN CYMRU.

TRO YN YR EIDAL.

LLYNNOEDD LLONYDD.

O'R BALA I GENEVA.

HUGHES A' I FAB,
CYHOEDDWR, WRECSAM



RHAGYMADRODD.



A DRODDWYD yr ystraeon bychain sydd yn y llyfr hwn i ddifyrru plentyn.

Gwel y cyfarwydd nad oes ol creu, na fawr o ol trefnu, arnynt. Pan elwid am ystori, yr oedd yn rhaid ei dweyd ar unwaith; ni adewid amser i barotoi. Yr oeddwn yn cael mynd i'r cyfeiriad a fynwn; yr unig amod oedd hwn,—yr oedd yn rhaid i'r stori fod yn wir. Felly dywedwn ryw hen stori ddywedai fy nhad wrthyf finnau,—i'm cadw'n ddiddig tan ddeuai mam adre, neu i dynnu fy sylw oddiwrth rywbeth a'm blinai, i'm suo i gysgu, neu i'm cadw'n effro. Weithiau dywedwn rywbeth oeddwn wedi ei ddarllen; ac felly clywai Cymry bach mynyddig ystori adroddid i blant, ganrifoedd yn ol, ar fynydd Gilboa neu yn nysoedd Groeg neu yn hafnau Norway.

RHAGYMDRODD.

Tybiais y byddai'r ystraeon o ryw fudd i blant ereill ; oherwydd y mae plant bach yn rhywle o hyd, yn holi ac yn chware. Felly dyma rai ohonynt, yn llyfr. Hwyrach y gwnaiff lyfr darllen ar yr aelwyd gartref ar hwyrnos gacaf ; a hwyrach y caiff fynd at y plant i'r ysgolion dydd.

Os rhydd bleser i ryw blentyn, ac os tynn ef i holi, ac os rhydd awydd iddo am wybod, byddaf yn ddedwydd iawn.

OWEN EDWARDS.

Rhydychen,

Mehefin 21, 1906.



CYNHWYSIAD.



DEL	1
AR YSTOL Y GOSB	58
BEDD Y CENRADWR	42
BEIBL COLL	110
BETH SYDD YNDDO ?	67
BETH YW'R GWYNT ?	29
CERBYDAU	85
COEDEN OLEWYDD	101
COLIGNI	91
CWN ADWAENWN I	62
CYMHWYNAS	109
CHWILFRYDEDD	66
DAU DDEDWYDD	23
DIALEDD IFAN	53
DYCHRYN	69
EWYLLYS TAD CARIADLAWN	34
GWEN FACH	99
GŴR ANFOESGAR	18
HEN WR Y COED	12
MANEG NEIFION	95
MELIN Y MŌR	5
MEWN CYFYNGDER	79
MŌR GALILEA	49
MYND I BYSGOTA A DOD ADRE	80
MYNDDOEDD GILBOA	35
NAIN	101
PLANT DEWR	95
SAM	68
SEFYLL A DIANC	41
TAFARN Y LLWYNGOD GROESION	31
TRI CHI BACH	17
TYRUS	75
WIL DDRWG	85
Y CYNHAEAF	86
Y DDWY YNYS	48
Y FALWODEN	96
Y FODRWY	9
YMWELYDD RHYFEDD	24
YSGUBAU ! OHO !	102
GEIRFA	113



“ Bod direidus.
O straeon digri'n llawn.”

LLYFR DEL.

DEL.

Mae teleffon yng Nghymru
O wifren ielen iain,
Un pen i dderbyn straeon
A'r llull i wrando 'rhain ;
Wrth un mae bod direidus,
O straeon digri'n llawn,
Wrth y llall mao buchgen bochgoch
Yn ddiifyr, ddiifyr iawn.

CHWI glywsoch am y telegraff ac am y teleffon. Dau air Groeg ydyw'r ddau air ; yn Gymraeg eu hystyr ydyw,—y pell-ysgrifennydd a'r pell-seinydd. Pe baech chwi yn un pen i'r telegraff a chyfaill yn y pen arall, fil o filldiroedd i ffwrdd, gallech wneyd i'r telegraff ysgrifennu eich meddwl yn y pen draw gyda eich bod wedi ei ddweyd. Y mae'r teleffon yn beth rhyfeddach fyth ; gallweh siarad yn un pen iddo, a bydd eich cyfaill yn clywed eich llais yn y pen arall. Meddyliwch am blentyn yn medru clywed llais ei fam, tra mae'r môr mawr rhyngddo a hi.

Onid nid esbonio'r telegraff a'r telefon yw fy amcan yn awr, ond dweyd stori, ac ar ol y stori honno y mae llawer o straeon ereill,—rhai na fydd yn hawdd iawn i chwi eu coelio hwyrach. Ond rhaid i chwi gofio fod llawer iawn o bethau rhyfedd yn bod yn y byd yma.

Mi wn i am fachgen bach bochgoch tew. Un hoff iawn o chwarae oedd; ac yn swm plant y pentref i gyd, clywech ei swm ef yn uchaf. Mab i feistr y post oedd; Cadwaladr oedd ei enw iawn, ond Del y galwai pawb ef. Un llawn bywyd oedd Del; allan yn chwarae y byddai wrth ei fodd. Anodd iawn oedd ei gadw'n llongydd mewn na thy na chapel; chwarae, chwarae'r oedd Del o hyd. "Del ni ydyw'r gwaethaf yn y wlad," ebe ei fam, wrth dreio 'i gael i'r ty i fynd i'w wely, "un drwg iawn ydyw Del." Ond buase mam Del yn digio am byth wrthyhych pe coeliech hi. Gwrandewch arni'n siarad â'i bachgen wrth fynd âg ef i'r ty,—“Del bach ddrwg ei fam, 'does mo'i dlysach o yn y byd, na'i well o chwaith.”

Ryw dro daeth newid mawr dros fuchedd Del. Ni chlywid ei lais ymysg lleisiau'r plant ereill, ni chwaraeuai gyda hwynt, nid oedd na blodeuyn ar y caeau na brithyll yn y nant nac aderyn yn y gwrych fedrai ddenu sylw Del fel o'r blaen. Ni chydiai mewn pel, ni cheisiai ennill botymau, ac nid oedd yn hidio mewn marblen, hyd yn oed mewn marblen wydr fawr lawn o liwiau. Doi i'r ysgol i'r dim at amser dechreu; ac wedi amser gollwng, ai adref ar ei union, ac ni welid Del y prynhawn hwnnw mwy. Yr oedd yn iach a llon, ond ni ddoi i chwarae. “Un rhyfedd iawn,” ebe'r fam, “ydyw Del bach ni.”

O'r diwedd gwelwyd pam yr oedd Del yn y ty o hyd. Yr oedd wedi digwydd, ryw ddiwrnod, roi



Wrth y llall mao bachgen
bochgoch,
Yn ddiŷr, ddiŷr iawn.

pellenn y teleffon wrth ei glust, a chlywodd yr ystori ryfeddaf glywodd erioed. A phob dydd ai Del i ystafell y teleffon, a rhoddai'r bellen wrth ei glust, a chlywai stori newydd. Ni wyddai o ble doi'r ystraeon, tybiai mai rhyw angel bach, neu un o blant y Tylwyth Teg, oedd yn eu dweyd wrtho yn y pen arall. Ond cewch chwi farnu pan glywch hwy.

Mae Del yn gwenu'n hapus,
Fo ddwed y llygad llon
Fod stori ielus ielus
Yn dod o'r bellen gron.

MELIN Y MOR.

'Roedd Del yn gwybod llawer
O bethau rhyfedd iawn,
Ac o gwestiynau dyrus
'Roedd meddwl Del yn llawn;
Ond yr oedd un rhyfeddod
Oedd Del yn fethu ddallt,—
Tra'r oedd pob dŵr yn groew,
Pam 'roedd y môr yn hallt?

YR oedd Del wedi synnu llawer pam yr oedd y môr yn hallt. Aeth gyda'i fam at y môr ryw dro, gwelodd y môr mawr, ac yfodd lymaid o'r dŵr. Ni yfodd ddim o ddŵr y môr ond hynny. A synnai pam yr oedd mor hallt.

Ryw ddydd rhoddodd Del y bellen wrth ei glust. A chlywodd pam yr oedd halen yn nŵr y môr.

Yr oedd hen wr doeth yn byw yng ngwlad yr eira. Yr oedd wedi gwneyd melin iddo ei hun, melin fechan hawdd ei chario, ac yr oedd yn felin ryfedd iawn.

Doi o'r felin beth bynnag ofynnech am dano, ond ni fedrai neb ei stopio ond yr hwn a'i gwnaeth. Ryw ddydd daeth dyn blysig i'r wlad, dyn hoff o yfed cwrw, a meddylodd,—“Pe cawn i'r felin. cawn ddigon o gwrw bob dydd.” Lladrataodd y felin, ac aeth â hi i bant y mynydd. “Cwrw!” ebai ef wrth y felin. A dyma gwrw'n dod, yn ffrwd fudr goch. Cyn hir yr oedd y dyn yn feddw, ac yn eistedd ynghanol llyn o gwrw, a hwnnw'n cronni o'i gwmpas. “Paid,” meddai wrth y felin; “digon, digon!” Ond ni pheidiai'r felin. Llifodd y cwrw dros y pant, ac i'r afon. Ni wyddai neb pam yr oedd y dŵr mor ddrwg. Ond gwelwyd o'r diwedd mai cwrw oedd yn llifo o rywle yn y mynydd. “Fy melin i sydd yno,” ebai'r hen wr, “ac y mac'r hwn a'i lladrataodd yn methu ei stopio.” Erbyn mynd i'r pantle, wele llyn o gwrw coch, a ffrwd yn hwrlymio i fyny o'r gwaelod. “Dacw lle mac fy melin fach i,” ebe yr hen wr, “sut yr awn ni ati hi?” Cawd ewch, a daew ollwng bach i lawr, a daew'r felin yn dod i fyny. dan bistyllio cwrw. Sisialodd yr hen wr rywbeth wrthi, a pheiodd yn y fan. Sychodd y llyn cyn hir, ond nid oes dim yn tyfu yn y pantle hwnnw byth.

Yn ymyl cartre'r hen wr, yr oedd cloddfa halen. Yr oedd halen yn ddrud iawn yn yr amser hwnnw. Yn yr hen amser, a rhaid i ti gofio, Del bach, mai yn yr hen amser yr oedd hyn,—yr oedd pobl yn byw yn y gaeaf ar gig hallt, ac yr oedd yn rhaid cael halen.

Wel, daeth capten y llong halen at y gloddfa, a chlywodd hanes melin yr hen wr. Ac ebe ef wrtho ei hun,—“Pe cawn i hon, fyddai raid i mi ddim dod dros y môr i chwilio am halen, byddai gennyf ddigon o hyd.” A'r noson honno, aeth i dŷ yr hen wr, ac aeth

a'r felin oddiarno trwy drais. Cyn y bore yr oedd wedi lledu ei hwyliau, ac yr oedd y llong yn croesi'r môr tuag adre. Synnai'r morwyr pam yr oedd y capten yn mynd adre â'i long yn wâg, heb ddim halen. "Os nad oes gennyf halen," ebe'r capten wrtho ei hun, yn llawen, "os nad oes gennyf halen, y mae gennyf felin fedrai lenwi'r môr." Ac ebai wedyn,—“Ni roddaf waith iddi nes cyrraedd y tir.” Ond yr oedd arno awydd mawr am weld y felin yn gweithio. “Mi geiff ddechre yn awr,” meddai, ac aeth i'w gaban at y felin fach.

“Halen!” meddai. Dyma'r felin yn dechre mynd, a halen gwyn glân yn dod o honi. “Dyma'r halen gore welais i erioed,” ebai'r capten, “gyrr arni hi, felin fach. Mi ddof fi i edrych am danat ti toc.” Cauodd y drws ar ei ol, ac aeth ar y dec. Ymhen hir a hwyr aeth at y drws. Ond ni fedrai agor yn ei fyw. Yr oedd llond y caban o halen, ac ni fedrai neb agor y drws. Yr oedd yr halen yn llifo allan dan y drws hefyd.

“Dyna ddigon, da iawn, fy melin fach i, paid yrwan.” ebai'r capten, gan deimlo wrth ei fodd. Ond dal i falu'r oedd y felin o hyd.

“Paid!” ebai toc, mewn llais uwch, ond nid oedd y felin yn gwranddo.

Yna dechreuodd gicio'r drws. “Paid bellach, felin y felldith.” meddai. Ond ni pheidiai'r felin ddim.

Dychrynnodd y capten. Ond yr oedd yn rhy hwyr. Aeth llwyth y llong yn ormod; a daew hi'n suddo. Aeth i waelod y môr, a'r felin ynnddi. Ac y mae'r felin yng ngwaelod y môr byth, yn malu halen. A dyna pam mae'r môr yn haltt.

Dyna'r stori glywodd Del. Nid ydyw'n wir; ac yr

wyf yn sicr nad oes melin yng ngwaelod y môr. Ond dywed Del,—“Sut y gwyddoch chwi, fucch chwi crioed yno. Yr wyf fi'n siwr ei bod hi yno.”

Gwranddo, Del bach, mi esboniaf i ti pam mae'r môr yn hallt. Y mae halen yn y creigiau, a halen yn y ddacar. Yn naear sir Gaer, y mae cloddfeydd halen. Y mae'r dŵr yn rhedeg dros y creigiau, a thrwy'r ddacar. Y mae'n toddi'r halen, ac yn ei gario gydag ef i'r môr. Y mae pob afon yn cario halen i'r môr,—y Ddyfrdwy o'r creigiau, a'r Hafren o'r gwastadedd. —ond nid oes digon o halen ynddynt i wneyd eu dŵr yn hallt.

Y mae'r haul, trwy ei wres, yn gwneyd i'r dŵr godi o'r môr, yn darth ac yn niwl. A'r dwfr hwnnw ydyw'r cynylau, a'r gwlaw. Ond, pan fo'r dwfr yn codi yng ngwres yr haul, nid yw'r halen yn codi gydag ef. Y mae'r halen yn rhy drwm, ac y mae'n gorfod aros ar ol. Nid oes dim halen yn y gwlaw, a dyna pam y mae dwfr gwlaw mor fersaidd. Felly, y mae'r dwfr yn cario halen i'r môr, ond ni ddaw â dim oddiyno. Dyna pam mae'r môr yn hallt

“Nage,” meddai Del, “y felin fach sydd yng ngwaelod y môr.”

“Mi wn i pam mae halen
Yn nwir y môr yn stor,—
Mae'r felin fach yn malu
Yn nyfnder mwya'r môr.”

Y FODRWY.

- “ Sut mao gwneyd rhyfeddodau,”
 Meddyliai Del ryw dro,
 “ Sut mao codi pontydd,
 A gyrru'r niwl ar ffo,
 A sut mao dysgu Saesnog,—
 Gwyn fyd na fedrwn i
 Eu gwneyd trwy ddim ond meddwl,
 'Trwy ddwedyd, 'Gwneled chwí.' ”

A NODD iawn, meddyliai Del, oedd gwneyd llawer peth. Anodd iawn oedd gwneyd tasg,—rhifo ac ysgrifennu a dysgu allan. Ond beth oedd hynny wrth wneyd pontydd, a ffyrdd, a thai mawr, a llongau? A thybiai Del,—tybed a oedd rhyw ffordd i wneyd y pethau hyn mewn munud, ac heb ddim traferth. A thra'n tybio hynny, rhoddodd y bellen wrth ei glust, a chlywodd stori.

Ryw dro yr oedd dyn melynddu'n erwydro drwy un o heolydd Caer Dydd, ac yr oedd bron a diffygio gan eisieu bwyd. Daeth at ddrws, a gofynnodd a gai droi i'r ty i orffwys. Dywedodd y gwas eiriau garw wrtho, gan beri iddo fynd i ffwrdd. Ond daeth bachgen bychan yno, mab y ty, a gwnaeth i'r gwr gwael ddod i'r ty. Yr oedd yn amlwg na fedrai'r dyn dieithr fyw yn hir. “ Bum yn dywysog yn yr India,” meddai, ‘ ac yn awr yr wyf yn chwilio am le i farw.’ ”

Cafodd y tywysog tlawd le i orffwys yng nghartref Iefan Hopcin, ac yno y bu farw. Yr oedd wedi hosi Iefan, galwai am dano at ei weiy yn barhaus, a chyn marw rhoddodd iddo fodrwy. “ Y mae swyn yn y fodrwy hon,” meddai, “ modrwy hen ddewin ydyw, roddodd imi wrth farw yng ngwlad fy nhadau. A

byn ydyw ei rhinwedd,—pa beth bynnag a ewyllysio yr hwn a'i gwisg, fe a fydd iddo. Ond nis gellwch ail ewyllysio â hi heb roddi ei benthg i rywun arall, i'w defnyddio unwaith."

Bu'r tywysog farw, a chladdwyd ef, a rhoddodd Iefan y fodrwy am ei fys ei hun. Ymhen yr wythnos yr oedd Iefan yn mynd i'r ysgol i Loegr. Yr oedd yr athraw yn wr nwyd-wyllt, creulawn, ac wedi curo Iefan lawer gwaith ar gam. Pan ddaeth y bachgen i'r ysgol yn ol, dyma'r athraw yn dweyd,—“Dacw'r bachgen drwg yn dod yn ol.” Ac ebe ef wrtho,—“Iefan Hopcin, gwyddwn lawer o'r drwg a wnaethost cyn i ti fynd adre : ond, wedi i ti fynd, gwelais nad oeddwn wedi ei wybod i gyd. Tydi laddodd fy nghywion ieir i yn yr ardd, onide ? Y peth cyntaf a wnaif â thi yw dy chwipio.”

Yr oedd Iefan mewn ofn mawr. Nid efe oedd wedi lladd y cywion. Ond gwyddai y cai ei gosbi, a gwyddai beth oedd y wialen yn dda, er mai bachgen diniwed oedd.

“Iefan Hopcin,” ebe'r athraw cyn hir, “dos i'r ystafell nesaf i gael dy chwipio. Daw'r is-athraw Phillips i osod y wialen arnat.” Dyn cam hyll oedd Phillips, dyn â llygaid croes, a hen chwipiwr heb ei fath. Aeth y plant yn ddistaw i gyd, a disgwylient bob munud glywed llais Iefan yn gwacddi dan y wialen. Ond cyn i'r chwipiwr fynd â'i wialen, aeth yr athraw at Iefan.

“Helo,” meddai, “yr wyt wedi mynd yn falch. Pwy hawl sydd gen ti i wisgo modrwy am dy fys ? Tynn hi, mewn munud, a dyro hi i mi.”

Tynnodd Iefan y fodrwy, dan wylo, a rhoddodd hi i'r athraw.

“Wyllo’r wyt ti,” meddai’r athraw, a’r fodrwy yn ei law. “Ffei o honot, wyllo; a thithe mewn ysgol mor dda. Gwna’n fawr o dy fraint, ’doedd yr un ysgol fel hyn pan oeddwn i’n fachgen. O na chawn i fod yn dy le di!”

Gydag iddo ddweyd y gair, drwy rin y fodrwy, aeth yr hen athraw fel y bachgen, a gallasech feddwl fod dau Iefan Hopcin yn yr un ystafell.

“Beth ydi hyn, beth ydi hyn?” ebe’r athraw, mewn cyffro mawr.

Esboniodd Iefan natur y fodrwy oedd yn ei law, gan ddweyd y doi y peth bynnag a ewyllysiai i’r hwn a’i gwisgai. Yna cymerodd y fodrwy o law yr athraw, gan ddweyd mai ei dro ef oedd y nesaf i ewyllysio.

“O’r gore, fy machgen i,” ebe’r athraw, “dywed wrth y fodrwy am fy rhoi yn fy llun fy hun, fy machgen pert i.”

Ond y peth a wnaeth Iefan oedd ewyllysio bod fel yr athraw. A dyna’r bachgen a’r athraw wedi newid llun. Aeth Iefan o’r ystafell chwipio i’r ysgol, ac at ddesc yr athraw. Rhoddodd wydrau’r athraw ar ei lygaid, a meddyliai’r plant i gyd mai’r athraw oedd. Ond yr oedd yr athraw, druan, yn yr ystafell chwipio. Aeth y chwipiwr yno; a chlywodd y plant waeddi mawr. Toc daeth y chwipiwr allan, a chan foesymgrymu tua’r ddesc, dywedodd,—

“Syr, y mae Iefan Hopcin o’i go. Dywed mai efe ydych chwi, syr. Ac am hynny, syr, mi a’i chwipiais ef yn waeth o’r hanner.”

“Dos yn ol ato,” ebe Iefan, “a dywed y caiff ei chwipio’n waeth eto os dywed mai y fi ydyw. A ydyw wedi cyfaddef mai efe laddodd y cywion ieir?”

“Na, syr, y mae’n gwadu’n waeth nag erioed.

' Nid y fi ddaru,' meddai, ' ond Iefan Hopcin.' A beth mae hynny'n feddwl, syr, nid wn i ddim yn wir. Yr ydych chi'n hen ac yn gall, hwyrach y gwyddoch chiwi."

" Gwn yn dda," ebe Iefan, " dywed wrtho am beidio dweyd gair wrth neb. a phâr iddo ddyfod i ysgrifennu ' Kindness is the highest virtue ' gan waith."

Synmai'r plant pam yr oedd yr hen athraw mor fwyn, ac yntau yn un mor greulon gynt. Ond ni wyddent hwy ddim am y fodrwy.

Dyna'r stori glywodd Del ; a daeth swm o'r bellen i ddweyd, hefyd, y cai ychwaneg o hanes Iefan Hopcin a'r fodrwy.

" Ha ! ha ! " medd Del yn llawen,
 " Daeth Ifan bach yn gawr ;
 A dyn y llygaid croesion
 Yn chwipio'r hen athraw mawr."

HEN WR Y COED.

Mae morwr, dyn a'i helpo,
 Dan benyd mewn gwlad bell ;
 Am lawer Cymro, druan,
 Ni ddwedir stori well.

Mi welaf fachgen ieuanc
 Yn hofli'r mwg a'r medd,
 Mi welaf hwnnw'n henwr
 Yn gaethwas hyd ei fedd.

DEUNAW oedd oed Morgan pan adawodd ynys Môn. Yr oedd wedi meddwl er pan yn fychan am fod yn forwr. Bu'n hel cregin ar y traeth lawer gwaith, i gael clywed su y môr ynddynt yn y

nos. Bu'n gwylio'r llongau'n pasio pen Caer Gybi aml i dro, ac mor aml a hynny'n dymuno bod ar eu bwrdd. Pan welai'r hwyliau gyntaf yn ymddangos dros y gorwel, torrai i ganu,—

“ Daew'r llong a'r hwyliau gwyrddion
Ar y môr yn mynd i'r Werddlon,
O! nu fuaswn i'ne ynddi,
Gyda'r morwyr, ddedwydd gwmni.”


Ond mynd yn ol i'w gartref oedd raid i Forgan, er cymaint ei awydd am long a môr. Ai i'r ysgol, a difyrrai ei hun yno drwy dynnu llun llong ac ynys oedd na welodd neb hwy, ond meddwl Morgan.

A rhyw ddydd, pan wedi gadael yr ysgol, gwelwyd ef ar fwrdd llong hwyliau yn Lerpwl, yn ffarwelio â'i gyfeillion, pan oedd y morwyr yn codi'r angor. Yr oedd yn fore hafaidd, a chwareuai'r hwyliau yn ysgafn yn awelon Mai. Yr oedd yr awyr yn las a digwmwl, ond fod ambell i gwmwl gwyn, fel blodau'r eira, yma ac aew. Wedi bod yn morio am ddyddiau lawer, mae'r tywydd yn newid, a'r gwynt yn codi. A daeth yn ystorm fawr. Collwyd pob llywodraeth ar y llong, gadawyd hi i drugaredd y gwynt, heb hwyl, heb raff, heb angor. Felly bu am amser, ond yn sydyn tarawodd ar graig. Daew'r dŵr yn dod i fewn yn genllif. Ceisiwyd gollwng y cychod, ond nid oedd modd, gan anterth yr ystorm. Ofnai Morgan mai boddi a wnai, a thra'n hiraethu am Fôn ac aelwyd gynnes y Ty Mawr, tarawodd tonn fawr ef i'r môr. Ond yn ffodus cafodd afael mewn darn o'r hwyllbren, a rhwng y pren, y tonnau, a'r gwynt, taflwyd ef i dir.

Ni wyddai pa le'r oedd, ond diolchai am gael daear dan ei draed. Edrychai ar y blodau a'r coed,—ond

yr oeddynt oll yn ddieithr iddo, ac yn wahanol i goed a blodau Cymru. Nid oedd dim a adwaenai ond y cymylau a'r haul. Cyn hir erwydrodd yn brudd, wedi colli ei holl gyfeillion, i weld y wlad. Ofnai glywed swm llewod a chreaduriaid gwylltion. Daeth i gwrr coedwig eang, dywell. Wedi teithio'n hir daeth at afon fawr, ac ar ei glan gwelai hen wr tal crymedig, a'i bwys ar ei ffon. Cyfarchodd well iddo. Ond nid oedd y naill yn deall iaith y llall. Cyfeiriodd yr hen wr ei fys at yr afon. Gwelodd Morgan fod arno eisio croesi. Cynhygiodd ei gefn i'r hen wr, rhoddodd ef ar ei ysgwyddau, a'i draed am ei wddf. Pan ar ganol yr afon, ofnai fod ei faich yn rhy drwm ac y byddai'n rhaid ei ollwng i'r afon, ond llwyddodd i gyrraedd yr ochr draw. Yna safodd i'r hen wr ddisgyn, ond nid oedd hwmw'n symud. Ysgydodd ychydig rhag fod yr hen wr yn cysgu, ond cydiai'n dynnach am ei wddf. A mwyaf yn y byd ysgydwai Morgan, tymaf yn y byd y gwasgai yntau. Ac y mae Morgan yno byth yn cario'r hen wr. Del bach, paid a chymeryd yr hen wr ar dy ysgwydd, ni ddaw i lawr. Ysmocio, Ymyfed, Tyngu,—dyna rai o enwau'r hen wr.

Mae Morgan dan ei benyd.
 Mewn bywyd caeth a phrudd,
 Ond tra bo anadl ynddo.
 Bydd Del yn fachgen rhydd.





“ Y cwn bach gwynion, pwy ydych chiwi ? ”



Dacw dri chi bach yn edifarllau.

TRI CHI BACH.

ROEDD tri chi bach yn byw mewn cenel clyd,
 Ac ni fu cwn erioed mor wyn eu byd ;
 Ond trwy bob dydd gofynnai'r tri i'w mam,—
 ' Pr'yd cawn ni fynd allan i chwarae naid a llam ? ”

Ac ar ryw ddiwrnod braf wele dri chi bach
 Yn rhedeg hyd y caeau yn llon ac iach ;
 Ac wele hwy'n dod at dawel llyn o ddŵr,
 Ac yn y llyn hwy welent ryfeddod yn siwr.

'Roedd tri chi bach yng ngwaelod y llyn,
 Yn edrych i fyny o'r dŵr mor wyn ;
 'Roedd tri bach ymchwilgar yn gofyn i dri,—
 “ Y cwn bach gwynion, pwy ydych chiwi ? ”

Gwenai tri chi bach uwch ben y llyn,
 A gwenai'r lleill arnynt yn swynol a syn ;
 Ond toe wele dri yn cyfarth yn ffol,
 A thri bach y llyn yn cyfarth yn ol.

Ebe'r tri,—“ Ni ddioddefwn ni sen fel hyn ; ”
 Ac ymaith â hwy ar eu pen i'r llyn ;
 Tarawodd eu pennau y gwaelod yn glau,
 A daew dri chi bach yn edifarhau.

Os gwenwn ni, cawn wenau yn ol,
 Ond gofid a gawn wrth ymosod yn ffol ;
 Ein hawydd i ymosod yn fwynder a droer
 Wrth gofio'r cwn bach fu yn y dŵr oer.

GWR ANFOISGAR.

YR oedd nifer o ddynion yn eistedd ar hwyrnos haf ger un o amaethdai sir Drefaldwyn. Yr oedd-
ynt yn dadleu a oedd rhyw englyn yn iawn. Pan oeddynt ar ganol dadleu, daeth gŵr ar gefn ei geffyl o gyfeiriad yr amaethdy, a gwaeddodd arnynt.—
“Fechgyn drwg, agorweh y llidiart.”

Rhedodd un ohonynt i agor iddo, ond yn lle diolch i'r bachgen am ei gymwynas, trodd ato ar ei geffyl, a dywedodd yn sarrug,—

“Anrhydedd mawr i ti oedd cael agor y llidiart i mi; a gobeithio na welaf fi mo dy wyneb hyll di byth eto. Mae dy wep di gen wirioned a gwyneb y llo yma.”

Yr oedd gan y cigydd lo, wedi ei brynu yn yr amaethdy; ac yr oedd yn mynd âg ef adref ar frys i'w ladd ar gyfer priodas. Gwyneb digon hagr oedd gan y llanc, rhaid dweyd, ond yr oedd ganddo feddwl cyflym, a chalon deimladwy iawn.

“Mi ddoi di y ffordd yma eto heno,” ebe ef wrth y cigydd.

“Ha ha! y gwyneb bwbach,” ebe hwnnw, “wyt ti'n meddwl y medri di fy witsio i, fel y witsiodd Huw Llwyd Cynfel yr hen Edmwnd Prys?”

“Fechgyn,” ebe Ifan y Gors, “chwi gewch weld y gŵr yna yn eich pasio eto, wedi newid ei dôn.”

Cymerodd fenthyg esgid newydd o siop erydd gerllaw. Yna rhedodd hyd lwybr y gwyddai am dano, a daeth i drofa yn y ffordd cyn i'r cigydd gyrraedd y fan honno, achos yr oedd y ffordd yn dolennu llawer.

Tafodd Ifan yr esgid newydd i ganol y ffordd : ac ymguddiodd y tu ol i'r gwrych, i weld beth ddigwyddai.

Toc cyrhaeddodd y cigydd y drofa, a gwelai'r esgid newydd ar ganol y ffordd.

"Jaist i," meddai, "dyma lwc. Dacw esgid newydd ar lawr. Ond 'does aew ddim ond un. Piti na fuasai dwy. Wna i ddim byd âg un, waeth i mi heb ddisgyn oddiar fy ngheffyl oddiwrth y llo yma."

Felly aeth yn ei flaen. Gydag iddo fynd o'r golwg, plannodd Ifan o'r gwrych, a chododd yr esgid newydd. Yna rheddodd mor gyflym ag y gallai hyd lwybr byrr, a chyrrhaeddodd drofa arall cyn i'r cigydd ddod. Tafodd yr esgid newydd i ganol y ffordd drachefn, ac ymguddiodd fel o'r blaen. Prin y cafodd ymguddio cyn i'r cigydd ddod.

"Jâl," ebe hwnnw, "dacw'r esgid arall. Y flasiwn biti na fuaswn i wedi codi'r llall! Ac y mae arna i eisio esgidiau newyddion hefyd. Mi af yn fy ol i geisio'r llall."

Disgynnodd, rhwymodd ei geffyl wrth goeden, rhoddodd yr esgid newydd ar y ceffyl, a chychwynnodd yn ei ol i geisio'r esgid arall, feddyliai ef. Gydag iddo fynd o'r golwg daeth Ifan o du ol y gwrych, a chymerodd yr esgid oddiar gefn y ceffyl. Cymerodd y llo ar ei gefn hefyd, a fwrdd âg ef yn ol hyd y llwybr byrr. Cymerodd y llo i'r amaethdy lle prynesid ef, a phenderfynodd y ffarmwr gael rhan o'r digrifwch. Yna aeth Ifan i eistedd at y llanciau fel o'r blaen.

Cyn bo hir dyma'r cigydd ar ei geffyl heibio iddynt yn ol, yn llawer llai ffroenuchel nag o'r blaen. Aeth

i'r amaethdy, dywedodd fel y collodd y llo, ac ychwanegodd,—

“ Rhaid i mi gael llo at y briodas. A oes gennych yr un llo arall fedrech werthu i mi ? ”

“ Oes,” ebe'r ffarmwr, “ yr un fath yn union a'r llall.”

Gwerthwyd yr un llo iddo yr ail waith, ac aeth yntau tua'r lliidiart fel o'r blaen. Galwodd ar y llanciau,—

“ Agorwch y lliidiart.”

“ Yr wyt ychydig yn fwy moesgar yn awr,” ebe Ifan, wrth agor y lliidiart iddo.

“ Taw di,” ebe'r cigydd, “ beth wyddost ti am foesgarwch ? ”

“ Mi ddoi di y ffordd yma eto heno,” ebe Ifan.


Aeth y cigydd yn ei flaen heb ddweyd gair.

Gydag iddo fynd o'r golwg, rhedodd Ifan ar hyd y llwybr byrr o'i flaen i'r coed lle y collasai y llo. Pan ddaeth y cigydd i'r fan honno, dyma Ifan yn brefu fel llo. “ Bo-o-o-o,” meddai.

“ Jaisti,” meddai'r cigydd, “ dyma fy llo i yn brefu yn y coed. Mynd yn rhydd ddaru o, a dianc i'r coed. Mi dalia i o, ac felly bydd y ddau lo dalais am danynt gen i'n mynd adre.”

Rhwymodd ei geffyl wrth goeden, ac aeth i'r coed i chwilio am y llo cyntaf. Gydag iddo fynd yn ddigon pell, dyma Ifan yn dod o'r gwrych, yn cymeryd y llo oddiar gefn y ceffyl, ac yn mynd âg ef i'r amaethdy'n ol. Yna aeth i eistedd at y llanciau ereill oedd wrth y lliidiart.

Ymhen hir a hwyr, wele'r cigydd yn dod yn ei ol yr





2008, Tennant

ail waith, yn fwy pendrist nag o'r blaen. Aeth i'r amaethdy, dywedodd ei hanes yn colli'r ail lo tra'r oedd yn chwilio am y cyntaf yn y coed, a phrynnodd yr un llo drachefn y drydedd waith. Yna cychwynnodd adre trwy'r llidiart.

"Os gwelwch chwi'n dda," meddai wrth y bechgyn, "agorwch y llidiart."

Aeth Ifan i agor fel y ddwy waith o'r blaen, ac ebe'r cigydd,—

"Diolch yn fawr i ti."

Wedi gweld ei fod o'r diwedd wedi dod yn wr moesgar, dywedodd Ifan yr holl hanes wrtho, talwyd pris y llo ddwywaith iddo'n ol, a rhoddwyd cyngor iddo fod yn ddiolchgar am gymwynas, ac yn foesgar wrth ei gofyn.

"Threia i byth fod yn wr mawr eto ymysg llanciau sir Drefaldwyn," ebe'r cigydd. Yr oedd wedi cael gwrs nad anghosiodd hi byth.

DAU DDEDWYDD.

MAE oerwynt llym o'r gogledd rhewllyd draw
Yn chwythu'n ffiniog drwy heolydd Llundain
fawr ;

Prysur a pawb trwy'r oerfel tua'i gartref clyd,
A'r eira gwyn o'r nefoedd lwythog ddaw i lawr.

Ond hwre ! Mae dau fachgen yn Llundain,
Mor ddedwydd a neb yn y fro,
Rhaf coesnoeth a throednoeth bob amser,
Yn chwarae beth bynnag a fo.

Chware berfa ynghanol yr eira
 Ddug wres nas gall manblu ei roi,
 Gwna chware hwy'n gymnes a dedwydd,
 Tra'r hen clyn Oerfel yn ffoi.

YMWELYDD RHYFEDD.

YR wyf yn cofio noson aeafaidl eiraog lawer blwyddyn faith yn ol. Nid oeddwn i ond plentyn y gaeaf hwnnw ; ond, er y noson y cyfeiriaf ati, gyda'i dychryn a'i braw, y mae gennyf barch at fy nhad yn ymylu ar addoliad.

Bwthyn digon tlodaidd oedd ein cartref, rhyw filltir o'r pentref. Ond yr oedd yn ddiddos iawn, a than mawn braf glân yn ei gynhesu drwyddo. Yr oedd ffenestr bur fawr yn wnech ei gegin, a ffenestr fechan yn y cefn. Wrth ffenestr y cefn rhoddid bwyd i'r adar, a llawer robin goch ddeuai i dalu ymweliad â ni ar y rhew a'r eira. Ond yr oedd ymwelydd mwy dieithr i ddod y noson honno.

Yr oedd fy mam yn wael yn ei gwely ; ac yr oedd dau fachgen ohonom, a'r babi heblaw hynny. Nos Sul oedd hi ; yr oedd yn noson casgliad olaf y flwyddyn hefyd, ac yr oedd yn rhaid i nhad fynd i'r capel.

Yr oedd llofruddiaeth newydd gymeryd lle yn myl. Yr oedd crwydryn wedi llofruddio morwyn ; a dywedid fod ceiliog du wedi neidio o rywle ar arch yr eneth, druan, adeg ei chladdu. Yr oedd arswyd y ceiliog du wedi meddiannu pawb trwy Lan y Mynydd ; a dyna'r rheswm, mae'n debyg, pam yr oedd Malen

“Llawer rohin goch ddennai i ddu ymwehiad a ni ar y rhew a'r eira.”





Llwyd, gwraig arw herfeiddiol, yn gwarchod gyda ni y noson honno.

Wrth i fy nhad agor y drws i fynd allan clywem swm gwynt uchel yn y derw a'r masarn mawr oedd yn gwyllo o amgylch y ty. Ond yr oedd yr eira'n rhy wlyb i'r gwynt fedru ei symud oddiar y ddaear ; ac yr oedd sain newyn a chynddaredd yn nolef y gwynt. Noson i fod yn y ty oedd, nid noson i fod allan ; a chlywais fy mam yn dweyd wrth fy nhad, mewn llais gwannaidd, am frysio adre o'r capel.

Cysgodd y babi'n hapus, a gwenodd trwy ei gwsg ; a dywedodd Malen Llwyd wrthym ni ein dau mai gweld angylion yr oedd. " Ond am danaf fi, weli di," ebai wrthyf fi, wrth weld y dyddordeb gymerwn yn hanes y babi a'r angylion, " pe cauwn i fy llygaid, fel y babi yma, ysbryd drwg ddoi i siarad â fi, ac nid angel." A chyda'r gair, cauodd ei llygaid, fel pe i gael golwg ar yr ysbryd a enwasai.

Gyda i'r hen Falen gau ei llygaid, dyma ergyd ar y ffenestr, a neidiodd yr hen wraig mewn dychryn ymron oddiar ei chader, er mawr berygl i'r babi. Ergyd fel pe buasai rhywbeth ysgafn wedi ei hyrddio yn erbyn y ffenestr oedd, ac yna ergyd arall drymach yn dod yn union ar ei hol. Codais i, ac eis at y ffenestr, a rhoddais fy llaw ar y glicied. Pan oedd fy llaw ar y glicied, clywn ysgrech anaearol yn ymyl y ffenestr. Wrth dynnu fy llaw yn ol, yn fy nychryn, codais y glicied ; a chwythodd pwff o wynt y ffenestr yn agored. Gyda hynny dyma rywbeth i mewn, gyda swm nas gallaf ei ddesgrifio ; a chauodd y ffenestr yn glec ar ol y rhywbeth, megis o honi ei hun. Gyda hynny, dyma ergyd fawr yn erbyn y ffenestr drachefn. Yr oedd yr hen Falen wedi dychrynnu'n enbyd, ac

yn gwaeddi,—“ Beth ydi o, y ceiliog du neu dderyn corff ? ”

Yr oedd yr ymwelydd dieithr erbyn hyn yn euro adenydd gwylltion yn erbyn ffenestr fach y cefn, ar gyfer y ffenestr a ddaethai i mewn drwyddi, ac yr oedd ein gwynebau fel y galchen wrth ei glywed. Yr oedd arnaf ofn y gwnai rywbeth i fy mam ; a chymerais hidlen,—hidlen laeth,—a gosodais hi ar gefn yr ysbryd. Distawodd yn union ; ac yr oeddym i gyd mewn distawrwydd yn disgwyl am fy nhad.

Pan ddaeth fy nhad adref, dywedasom yr hanes yn grynedig wrtho ; a chyfeiriasom ein bysedd yn ofnus iawn at yr hidlen ar y ffenestr bach, lle'r oedd yr ysbryd neu'r ceiliog du neu rywbeth. Rhoddodd fy nhad ei law dan yr hidlen, a chydiodd mewn aderyn oedd yno gerfydd ei draed. Petrisen braf dew oedd, ac yn crynnu gan ofn fel pe buasai'n galen i gyd. Esboniodd fy nhad mai dianc o flaen y genllif goch yr oedd y betrisen, ei fod wedi gweld y genllif ysglyfaethus yn ymsaethu o gwmpas.

“ Wel, mae hi'n un dew,” ebe Malen Llwyd, oedd wedi adfeddiannu ei hun erbyn hynny, “ mi wneiff swper ardderchog i chwi.”

“ Na,” ebai fy nhad, “ i chwilio am noddod y daeth yma, a noddod a geiff.”

Nid oedd fy nhad ond dyn tlawd, ac yr oedd yn anodd cael lluniaeth briodol yn y dyddiau hynny, dyddiau oerfel ac afiechyd. Ond am fywyd y betrisen, nid am fwyd amheuthyn yr oedd ef yn meddwl. Yr oedd y gwynt wedi distewi erbyn hynny, ac yr oedd yn codi'n noson oleu braf. Agorodd fy nhad y drws, a gollyngodd y betrisen allan.

BETH YW'R GWYNT ?

“ Beth sydd yn rhuo allan ?
 Beth sy'n cyflymu'n gynt ?
 Beth sydd yn colli llongau ?
 Y gwynt, y creulawn wynt.
 Mae'n chwythu capiau bechgyn,
 Ni waeth heb waeddi ' Ust !'
 I wybod pa beth ydyw
 Rho'r bellen wrth fy nghlust.”

“ **M**AE'R gwynt yn beth digri ! Mae'n gwthio yn fy erbyn pan yn mynd i'r ysgol, gan geisio fy rhwystro, a 'does dim modd ei weld ! Byddai'n taflu fy nghap o hyd cyn i mam roddi llinyn wrtho dan fy ngên, a phan y byddwn yn plygu i'w godi— ' Pwff,' meddai'r gwynt, gan ei chwythu ymhellach oddi wrthyf, a chwarddai yn fy nghlust pan y rhedwn yn bennoeth ar ei ol. Chwalodd dô brwyn ty modryb Elin hefyd, a chwythodd lyfr tasg Rhys bach o'i law dros y bont i'r afon. O ble daeth y gwynt ? ” Dyna fel y siaradai Del wrth gadw ei lyfrau ysgol, wedi gorffen ei dasg ar noswaith oer pan chwythai'r gwynt yn uchel, gan chwibanu arno, dybiai ef, yn nhwll y clo i agor y drws iddo. Ac am nad oedd yn ei wahodd i mewn taflai'r gwlaw, fel cerrig mân, ar y ffenestr. Rhoddodd Del y bellen wrth ei glust, a chlywodd y stori hon.

Dywed un, Del, mai Aeolia yw gwlad y gwynt, ac mai Aeolus yw brenin y wlad honno. Mae'n cadw'r gwynt mewn ystafell yn y graig, ac y mae drysau a barrau cryfion yn ei rwystro allan. Mae gan y brenin Aeolus wialen yn ei law, a chyda hi yr oedd yn gyrru'r gwynt allan,—y gwynt teg heddyw, y gwynt oer yfory, a'r ystorm drennydd, bob un yn ei dro.

Un dydd yr oedd Ulysses,—milwr gwrol o dir Groeg,—a'i filwyr yn mynd adref mewn llong dros y môr wedi bod yn rhyfela am flynyddoedd mewn gwlad ddieithr. Pan oedd y llong yn ymyl ei wlad enedigol, ac Ulysses yn gweld ei dŷ gwyngalehog ar ochr y mynydd, cododd yn ystorm a gyrrodd y gwynt croes hwy yn ol o olwg eu gwlad ymhell. Cyn bo hir daethant i dir, ac er na wyddent ym mha le yr oeddynt, yr oedd yn dda ganddynt gael rhywle sefydlog wedi eu tafu o donn i donn cyhyd. Pan yn sychu eu dillad ar y traeth, daeth dyn mawr atynt. Gofynnai'n sarrug,—

“Pwy ydych chiwi, a beth yw eich neges yn fy ngwlad i?”

“Ulysses, mab Laertes, wyf fi, a Groegiaid yw fy nghanlynwyr. A'r gwynt a'n gyrrodd i'th wlad. Pwy wyt ti?”

“Aeolus, brenin y gwynt; a gwlad y gwynt yw hon.”

Daeth brenin y gwynt yn gyfeillgar iawn âg Ulysses a'i wŷr, rhoddodd ymborth iddynt a choed i drwsio eu llongau. Yr oedd ar Ulysses hiraeth am fynd adref, a gofynnodd i Aeolus rwymo y gwynt rhag ofn i ystorm arall godi a'i rwystro at ei deulu.

“Gwnaf,” meddai Aeolus, “a gadawaf i wynt teg chwythu ar dy hwyliau. Cymer y sach yma yn anrheg gennyf wrth ymadael,—ond gofala am beidio ei hagog hyd nes yr ai adref, neu cei ddioddef mawr os gwnei.”

“Diolch iti, frenin y gwynt,” meddai Ulysses, gan daflu y sach lawn dros ei ysgwydd ac esgryn i'w long. Nis gwyddai beth oedd ynnddi, a buasai wedi ei hagog oni bai fod arno ofn i air Aeolus ddod i ben. A rhwymodd y sach wrth yr hwylybren; ac ai ei long

dan ledu ei hwyliau gwynion, yn gyflym tua'i wlad Ithaca. Yn hwyr un dydd yr oedd Ulysses yn flin gan y daith, a syrthiodd i gwsg trwm.

"Beth yw y rhodd gafodd y capten gan frenin y gwynt, tybed?" meddai'r morwyr. "Y mae yn rhaid fod y peth sydd yn y sach yn werthfawr iawn,—aur neu arian lawer. Dyma gyfle da i weld beth yw tra y mae y capten yn cysgu mor drwm."

Felly fu, gwyliai rhai Ulysses rhag iddo ddefro tra y tymuai y lleill y sach i lawr. Wedi cael y sach ar y bwrdd, yr oedd yr holl ddwyllaw o'i hamgylech yn gwylio'r un dorrai'r llinyn oedd am ei genau. Ond O! yn lle aur ac arian, daeth gwynt cryf dychrynlyd o honi, a chwythodd y dwyllaw i'r dwfr, cododd y môr yn donnau fel mynyddoedd, a neidiai y llong ac Ulysses ynddi fel pel o frig i frig. Yr oedd y gwynt wedi dianc, ac nis gallai Aeolus ei lywodraethu.

Er y credai plant bach Groeg mai Aeolus oedd arglwydd y gwynt, y mae ffrwyn y gwynt, Del, yn llaw un cryfach nag Aeolus, ac yn ol ei ewylllys Ef yr a pob awel.

TAFARN Y LLWYNOGOD CROESION.

YR oedd boneddwyr hen Gymru yn wŷr anrhydeddus ac urldasol, ac yr oedd popeth anonest neu fradwrus yn gas ganddynt. Ond yr oeddynt yn falch a ffoen uchel, digient a ffroment am y peth lleiaf, ac yr oedd hen ysbryd y rhyfeloedd yn gryf ynddynt. Maddeuent am eu taro, ond ni fedrent faddeu am eu sarhau.

Yr oedd Syr Robert Fychan o Nannau wedi penderfynu gyrru anrheg a fyddai wrth fodd cyfaill iddo ym Mawddwy. Yr oedd ganddo filiast fechan ddu, un o'r cenawon cwn prydfferthaf welwyd ym Meirion erioed. Galwodd ei hen was ffyddlawn, Sion William, ato ; ac ebe'r hen farwnig,—

“ Sion, y mae arnaf eisieu i ti fynd ar neges bwysig iawn. Nid ymddiriedwn y gwaith i neb ond i ti, achos gwn mor ofalus wyt. Yr wyf wedi penderfynu anfon y filiast yn anrheg i'm hen gyfaill o Fawddwy. Rhaid i ti fynd â hi yno bore yfory. Gwna dy hun yn barod.”

“ O'r goreu, meist, gwyddoch am fy ngofal a'm ffyddlondeb. Ni fethais yn fy neges erioed.”

Bore drammoeth a ddaeth, ac yn bur blygeiniol gwelid yr hen Sion William yn cerdded i lawr oddi-wrth Nannau, ac yn dechreu dringo llechweddau Cader Idris. Yr oedd ganddo sach ar ei gefn, ac yn y sach honno yr oedd y filiast fechan werthfawr.

Yr oedd ei ffordd yn arwain at Fwlch Oerddrws, a chyn croesi'r mynyddoedd mawr yr oedd Sion William i basio tafarn y Llwynogod Croesion. Yn awr, er mor ffyddlon oedd Sion, nis gallai basio tafarn y Llwynogod Croesion heb dorri ei syched. Rhoddodd y sach ar lawr wrth y drws, a diflamodd am ennyd i'r dafarn.

Pwy oedd yn digwydd bod yno ond Gruffydd Owen, y saer melinau, gŵr llawn o ddireidi. Yr oedd ganddo hen gath ddu, erchyll o deneu a hyll. Tynmodd y filiast werthfawr o'r sach, a rhoddodd yr hen gath hyll yn ei lle.

Toc daeth yr hen Sion William allan o'r dafarn.

Cododd y sach yn ofalus, a rhoddodd hi ar ei gefn, ac yna trodd ei wyneb tua Bwlch Oerddrws.

Cyrhaeddodd ben ei daith, a chafodd fynd ar ei union i'r parlwr at wr Mawddwy. "Dyma anrheg y mae fy meistr. Syr Robert Fychan o Nannau, yn anfon i chi, syr," meddai. Wrth ddweyd hynny, datododd llyny y sach, cymerodd afael yn ei gwaelod, a throdd hi â'i gwyneb i waered. A neidiodd yr hen gath ddu hyl allan, er dychryn i Sion William, ac er syndod digofus i'r gwr mawr o Fawddwy.

"Y lledfegyn drwg," ebe'r hen yswain, wedi gwylltio'n fawr, "a yw dy feistr a thithau wedi gwneyd â'ch gilydd i'm sarhau? Cei fynd yn dy ol, a dy hen gath gyda thi; a dywed di wrth dy feistr mai gwell iddo fuasai bod heb ei eni na chware'r hen dric anymunol hwn."

Daliwyd yr hen gath, a phaciwyd Sion William yn ei ol heb groesaw yn y byd. Erbyn cyrraedd tafarn y Llwynogod Croesion, yr oedd yn sychedig iawn. Trodd i mewn, a gadawodd y sach y tu allan fel o'r blaen. Daeth Gruffydd Owen yno ar ei union; goll-yngodd y gath allan, a dododd y filiast fach yno fel o'r blaen. Daeth Sion William allan, ac ymaith âg ef tua Nannau.

Wedi cyrraedd Nannau, aeth at Syr Robert ar ei union. Dywedodd yr hanes, fel yr oedd y filiast wedi troi'n gath,—os nad yn rhywbeth gwaeth,—ar y ffordd; ac fel yr oedd y gwr mawr o Fawddwy wedi gollwng ei dafod arno, ac ar ei feistr.

"Dyma fi'n mynd i'w gollwng o'r sach; edrychwch

chwi arni, meistr. Yr ydych chi'n ysgolhaig, a medrwch weld beth ydyw."

Trodd wyneb y sach i lawr fel o'r blaen, a dyma'r filiast fach yn disgyn o honi, fel yr oeddynt wedi ei rhoddi i mewn yn y bore.

"Mistar bach," ebe Sion William, "y mae rhyw hud yn rhywle. Dyma beth na fedr neb ei esbonio byth. Miliast yn troi'n gath, a'r gath yn troi'n filiast yn ol!"

Bu Syr Robert yn ddistaw am ennyd. Yna gofynnodd,—

"Sion, a droist ti i dafarn y Llwynogod Croesion?"

"Wel, do, meistr."

"Wrth fynd ac wrth ddod yn ol?"

"Do'n wir, mistar."

"Pwy oedd yno?"


"Neb ond Gruffydd Owen, y saer melinau."

Chwarddodd Syr Robert nes oedd ei ochrau'n ysgwyd, a dywedodd,—

"O Sion, Sion, mi fedraf fi esbonio dy helyntion di. Pasia di'r dafarn y tro nesaf, yn enwedig os bydd Gruffydd Owen yno."

EWYLLYS TAD CARIADLAWN.

DAN gysgod un o fynyddoedd Gilboa yr oedd teulu dedwydd. Un mab oedd yno, a llawer o gaethweision. Yr oedd y tad yn or-hoff o'i unig fab; ac yr oedd y bachgen yn deilwng o'r cariad roddai ei dad iddo, oherwydd yr oedd ei hynawsedd a'i burdeb wrth fodd pob tad yn Israel.



MYNYDDOEDD GILBOA.



I orffen ei addysg anfonwyd y mab i Jerusalem. Rhoddwyd ef i ofal un o athrawon goreu y ddinas ; a dyna lle yr oedd, ddydd ar ol dydd, yn efrydu'r gyfraith yng ngolwg y deml.

Ryw ddydd ymysg y dyddiau gwelai, dros gwrr y deml, un o gaeth-weision ei dad yn dod o gyfeiriad mynyddoedd Gilboa. Ofnodd fod rhyw newydd drwg, a meddyliai am ei dad wrth weld y caethwas yn prysuro ato. Yr oedd y gwas fel pe'n ceisio cuddio llawenydd, ond newydd drwg iawn i'r bachgen oedd ganddo. "Clafychodd dy dad," meddai, "a bu farw."

Wylodd y bachgen yn chwewr yn ei ing. Ac yntau wedi hiraethu cymaint am fynyddoedd Gilboa, ac am weld ei hen dad!

Safai'r caethwas gerllaw nes oedd y bachgen wedi tawelu ychydig. Yna dywedodd ran arall ei gemad. "Pan welodd dy dad Angau'n dod yn gyflym ato, gwnaeth ei ewyllys. Yn ei ewyllys gadawodd bob peth i mi, ar un amod. A'r amod hwnnw ydyw fy mod i adael i ti gael un peth o bethau dy dad, y peth cyntaf o'i eiddo weli wedi ei farw neu'r peth a ddewisid dy hun, yn ol yr ewyllys. Cwyd, brysia, sych dy ddagrau. Tyrd i gymeryd dy beth, y mae arnaf eisieu meddianu f'etifeddiaeth. Bum yn gaethwas yn ddigon hir ; mi ddanghosaf i ti'n awr y medraf fod yn feistr."

Wylodd y bachgen yn fwy chwewr byth. Nid colli ei etifeddiaeth oedd yn ei boeni, ond y meddwl fod yn rhaid ei fod wedi digio ei dad, cyn y buasai'n gwneyd y fath ewyllys. Yn ei ofid a'i drallod aeth at ei athraw, gan ddweyd wrth y caethwas am aros hyd yr hwyr. Gwrandawodd yr athraw ar y bachgen yn dweyd ei hanes. Yna eisteddodd yr athraw am hir yn fud, a'r bachgen yn wylo'n chwewr.

“Ni wnest ddim i ddigio dy dad, ai do?” ebe'r rabbi toc.


“Naddo,” ebe'r bachgen, “ei weld oedd hiraeth fy nghalon, ac ni chaf ei weld mwy.”

“Fab cariadus, dad doeth,” ebe'r rabbi, “mi welaf ystyr y cwbl yn awr. Gwelodd dy dad fod Angau'n cerdded yn gyflym i'w gyfarfod. Gwelodd nad oedd amser i anfon am danat cyn ei farw. ‘Ni fydd fy mab yma,’ meddai wrtho ei hun, ‘ac fe ddifroda'r gweision ei etifeddiaeth. Rhag iddo ddod yma i edrych ar eu holau, ni ddywedant wrtho am fy marw am lawer o ddyddiau. Felly rhaid i'm henaid aros yn hir am y fendith sy'n dod o alar mab serchog am ei dad. Ond mi adawaf fy etifeddiaeth i'r caethwas buanaf sydd gennyf, ar amod fod fy mab i gael y peth wel gyntaf wedi fy marw neu'r peth ddewiso. Felly bydd y gwas yn sier o redeg bob cam i ddweyd yr hanes wrth fy mab, a chaf finnau fendith ei alar.’ Dyna fel y dywedodd dy dad wrtho ei hun.”

“Ie,” ebe'r mab, “gwell gennyf iddo gael bendith fy ngalar na phe cawn fy etifeddiaeth.”

“Ond gwrando,” ebe'r athraw. “Yr oedd dy dad yn wr doeth, nid yn unig yn dad serchog. Oni wyddost mai eiddo ei feistr yw pa beth bynnag sydd ar elw gwas, yn ol y gyfraith? Y peth cyntaf o eiddo dy dad a welaist oedd y caethwas,—y caethwas sydd yn meddwl mai efe sydd i gael dy etifeddiaeth. Dewis y caethwas, a chei felly holl etifeddiaeth dy dad.”

Gwelodd y mab ddoethineb a chariad ei dad oedd wedi ei golli. Mawr oedd syndod y gwas pan ddywedodd y bachgen ei fod yn ei ddewis ef. Ond cafodd yntau ei ryddid am redeg mor fuan o fynydd-oedd Gilboa.





Ac wele ben llyffant yn codi o'r dŵr.

Llawer ystori adroddir i blant y dwyrain fel hyn, i ddangos iddynt fod eu tadau'n ddoeth ac yn hoff ohonynt. Ni waeth i blentyn beth a ddysgo, os na ddysgir ef i barchu ac i garu ei dad a'i fam. Na ddyweder gair wrth blentyn byth yn erbyn ei dad neu ei fam. I'w feddwl ef, os ydyw ei galon yn ei lle, ynddynt hwy mae'r doethineb pennaf a'r cariad cryfaf.

SEFYLL A DIANC.

AETH pump o blant bach ryw ddiwrnod am dro,
Y plant bach dedwyddaf o fewn yr holl fro ;
Myfanwy a Gwenfron ac Elin fach swil,
A dewr gyda hwynt ydoedd loan a Wil.

Gofalai Myfanwy am Elin o hyd,
I Wenfron ei dol oedd holl ofal y byd ;
Gofalai'r dewr loan am wagen fel dŷn,
A Wil a ofalai am dan o ei hun.

Wedi cerdded am cnyd hyd ffordd lydan braf,
Dan siarad, a hoffi mwyn awel yr haf ;
Mewn ffos oedd ar ymyl y ffordd clywent stwr,
Ac wele ben llyffant yn codi o'r dŵr.

'Roedd llygad y llyffant yn ddisglair ac oer,
Fel llewyrch ar lestr neu lewyrch y lloer ;
Rhwyng blodau a glaswellt fe welai y plant,
Ac yntau yn dawel yn nyfroedd y nant.

“ Hen lyffant,” medd Wil, “ cyfri'n dannedd wnei di,
 A chwilio am garreg i'th daro wnaif fi ; ”
 Ar hyn dyma'r llyffant yn neidio o'r dŵr,
 Gan feddwl cael sgwrs â'r plant bychain yn siwr.

Trodd Gwenfron a'r ddol eu cefnau yn chwim.
 Am y wagen 'dyw Ioan yn malio'r un dim,
 Rhed Myfanwy ac Elin yn rhyfedd eu llun,
 A Wil a ofala am dano ei hun.

BEDD Y CENHADWR.


AR oror Cameroon, yn Afrig bell, y mae palm
 wydden yn sefyll uwch ben bedd, fel pe i'w
 wylio. Bedd cenhadwr ydyw'r bedd hwnnw,
 bedd cenhadwr fu farw'n ieuanc, cyn cael dweyd gair
 wrth y pagan am Grist.

Ar lethr mynydd yn Switzerland y mae cartref
 Fritz Becher. Gwelai y bachgen yr eira tragwyddol o
 ddrws ty ei dad, eira sy'n wyn a disglair ar yr Alpau
 er bore'r byd. Adwaenai'r aberoedd a'r defaid ac
 adar y mynyddoedd. Ni fu neb yn fwy hoff o'i
 gartref na Fritz Becher.

Ond penderfynodd adael ei gartref, a hwylio dros y
 môr, o wlad yr eira i wlad y palmwydd, i ddweyd
 wrth y pagan am Iesu Grist. Nid oedd yn sicr a oedd
 ei enw ef ei hun ar lyfr y bywyd ; ond credai yr
 ysgrifennid ei enw yno os medrai gael ereill at Grist.
 Yr oedd galar yn ei gartref pan gychwynnodd, a thad
 a mam yn gofyn pryd y doi o wlad y palmwydd i
 wlad yr eira'n ol.




Ar hyn dyma'r llyffant yn neidio o'r dŵr.





BEDD Y CENHADWR.



Gwelodd y paganiaid long yn angori ar eu traethell, a phedwar o ddyinion gwynion yn glanio. Yr oedd tri yn ddyinion cryfion canol oed; a phan ofynwyd iddynt beth a werthent, atebasant,—“Nid oes gennym ddim i'w werthu, yr ydym yn cynnyg efengyl heddwch heb arian ac heb werth.” Ond yr oedd un o'r cenhadon yn ieuanc, a'r dwymyn wedi ymaflyd ynddo. Rhoddwyd y bachgen claf i orwedd dan gysgod y palmwydd, ar y traeth lle yr oedd wedi meddwl cyhoeddi efengyl yr Iesu. Am dri diwrnod bu'n dihoeni dan y dwymyn. Soniai am y mynydd-oedd; gwelai ei gartref, a'r eira y tu hwnt iddo. Ac o'r diwedd gwelodd wlad a'i gogoniant yn fwy na'r goleuni ar yr eira; a gwelodd ynddi un â llyfr yn ei law. “Mi welaf fy nghartref,” meddai, “a'm brawd hynaf. Y mae llyfr yn ei law, ac y mae fy enw i ynddo. Daew'r hwn fu farw o'i fodd dros bechadur. Daew enw Fritz Becher ar Lyfr y Bywyd.”

Torrwyd bedd iddo ar y traeth. Y mae'r paganiaid eto'n holi am yr hwn fu farw o'i fodd dros bechadur, ac am Lyfr y Bywyd. Y mae palmwydden dal eto'n gwyllo uwch ben bedd plentyn gwlad yr eira. A phwy na ddywed wrthi,—

“Cadw di'n ddiogel.

Weddillion y sant i fwynhau melus hun,
Pan ferwo y weilgi ar lan Coromandel,
Gofynnir adfeillion ei babell bob un!”

Y DDWY YNYS.

YR oedd y rabbi Hillel yn sefyll ar lan llyn Galilea gyda'i hoff ddisgybl Ben Ami. Yn y gwanwyn oedd hynny, ac yr oedd awel bêr yn anadlu dros ddyffryn Jezreel, ac arogl mil o flodau ar ei hadenydd. Yr oedd cwch pysgota'n sefyll ger y lan, a'i hwyliau gwynion yn eglur, oherwydd fod y dwfr o las tyner tu ol iddo, a lliw gwyrdd gwan hyfryd ar fynyddoedd Decapolis yr ochr draw.

“Fy mab,” ebe rabbi Hillel, wrth weld Ben Ami'n edrych yn synllyd ar y dwfr, “beth sydd yn dy feddwl? A wyt ti'n myfyrio ar y gyfraith?”

“Meddwl yr oeddwn, fy athraw,” ebe yntau, “am ryw long a dwy ynys y clywais ystori am danynt. Daeth y llong aew a'r dwfr â hwy i'm meddwl.”

“Pa ystori yw honno?”


“Fel hyn yr adroddwyd hi i mi gan hen Lefiad. Ryw dro yr oedd hen fasnachwr cyfoethog yn byw ar fin y môr. Yr oedd ganddo gaethwas hynod am ei ffyddlondeb; ond ni chai roddi ei ryddid iddo, yn ol cyfraith y wlad honno. A thybiodd, pan fyddai efe farw, y gwerthid ef yn y farchnad i ryw feistr creulawn uchaf ei geiniog. Dywedodd wrth y gwas,—

“‘Nid oes gennyf fawr o amser i fyw eto. Rhaid i ti ymadael o'r wlad hon. Mi rof long i ti, a'i llond o nwyddau marsiandiaeth. Dos dithau yn y llong o wlad i wlad, gwerth yr eiddo lle bo ddrutaf, a chasgl gyfoeth.’

“Aeth y gwas i'r llong, a hwyliodd ymaith i'r môr mawr. Wedi hwylio llawer o ddyddiau ar dywydd braf, daeth ystorm fawr. Gyrrwyd y llong at



AR FÖR GALILEA.



drugaredd y gwynt, ac ni wyddai y llywydd ym mhia le yr oeddynt. A rhyw noson tarawodd y llong ar graig, ac aeth yn ddrylliau. Llyncodd y môr y nwyddau gwerthfawr, a'r bywydau hefyd. Y gwas yn unig adawyd; medrodd ef nofio, yn noeth ac yn glwyfedig, i ynys oedd gerllaw. Yr oedd yn brudd iawn, ac yn isel ei ysbryd, wedi colli popeth feddai yn y byd. Cerddodd ar hyd yr ynys, gan ofni na chai ddigon o ymborth, rhagor rhyddid a golud. Ryw ddiwrnod cafodd ei hun yn dynesu at ddinas fawr. Yr oedd yn flin ac iselfryd, a dim ond ychydig garpiau am dano. Ond gwelai dyrfa yn rhedeg i'w gyfarfod, ac yn gwaeddi,—‘Croesaw iti, ein brenin; teymasa arnom byth!’ Llusgasant gerbyd gorwych i borth y ddinas i'w gyfarfod, a rhoddasant ef i eistedd ynddo ar sidanau esmwyth. Aethant âg ef i blas ardderchog, rhoddasant wisg borffor frenhinol am dano, a dywedasant,—‘O frenin, bydd fyw byth.’

“Yr oedd y gwas wedi synnu, ac yn methu deall hyn oll. Ymysg y dyrfa oedd yn plygu glin iddo. gwelai hen wr â doethineb ar ei wedd. Galwodd ef ato, a dywedodd,—‘Yr wyf yn methu deall beth ydych yn wneyd. Nid wyf fi ond caethwas o wlad bell, wedi'm tafu yn unig ac yn dlawd ar eich goror. Paham yr ydych yn rhoi coron ar fy mhien? Paham yr ydych yn rhoi esgidiau brenhiniaeth am fy nhraed? Paham yr ydych chwi, a chwithau'n wŷr rhyddion, yn plygu glin i gaethwas na fedd ddim ar ei elw?’

“‘Frenin,’ ebe yntau, ‘ysbrydion ydym ni. Llauer blwyddyn yn ol, cyn fy ngeni, gweddiodd ein tadau ar Dduw anfon un o feibion dynion yn frenin arnom ni. Atebodd yntau eu gweddi. Ond nid oes yr un brenin i deymasu am fwy na blwyddyn. Bob

blwyddyn daw un o feibion dynion yma o'r môr. Gydag iddo ddod, rhoddir ef ar yr orsedd, ac y mae holl olud a phleser yr ynys at ei alwad. Ond ar ddydd olaf y flwyddyn, tynnir ef i lawr oddiar yr orsedd, diosgir ei wisg frenhinol oddiam dano, a chludir ef i ynys fawr anial. Yno gadewir ef i ymdaro drosto ei hun.'

“ ‘Beth ddaw o hono yno?’ ”

“ ‘Hyd yn hyn y mae ein brenhinoedd oll wedi ymddwyn yr un fath. Treuliasant eu blwyddyn mewn gloddest a phleser, heb feddwl am eu diwedd. A phan ddeuai dydd olaf y flwyddyn, anfonid pob un i ynys lle nad oedd dim wedi ei barotoi ar ei gyfer. Yno byddai farw'n druenus o newyn.’ ”

“ ‘Beth yw dy enw?’ ”

“ ‘Ysbryd Doethineb.’ ”

“ ‘Da. Pa gyngor roddi i mi?’ ”

“ ‘Fel y deuaist i'r ynys hon, felly y bydd raid i ti fynd i'r ynys anghyfannedd. Noeth y deuaist yma; noeth yr ai oddi yma. Bydd ddoeth, a gwranddo arnaf fi. Yr wyt i sod yn frenin am flwyddyn. Paid a threulio'r amser fel ereill i ymblesera'n ofer. Parotoa ar gyfer diwedd y flwyddyn. Anfon weithwyr i'r ddinas anghyfannedd. Gwna iddynt drin y tir yno, a hau gwenith a phlamu coed, a chloddio pydewau, a thrin y tir, a chodi tai. Yna cei fyw dy oes yn ddedwydd yno, heb farw o newyn. Berr yw blwyddyn, mawr yw'r gwaith, ymroa i'r gwaith.’ ”

“ ‘Gwnaeth yntau felly. Daeth diwedd y flwyddyn; ond nid oedd ef yn anobeithio fel ereill, nac yn ceisio boddi ei ofnau mewn oferedd. Tynnwyd ef oddiar yr orsedd, rhoddwyd ef yn noeth mewn llong, ac anfonwyd ef i'r ynys anghyfannedd.’ ”

“ Ond yr oedd ei gwedd wedi newid. Yr oedd yn llawn o ymborth a chyfoeth, ac yr oedd tyrfa yno yn disgwyl am y gwas doeth. Gwnawd ef yn frenin yno, a bu fyw yn hapus, am ei fod wedi gwrando ar Ysbryd Doethineb.”

Dyna fel yr adroddodd Ben Ami yr hanes wrth rabbi Hillel, ei athraw. Yr oedd yr athraw'n fud am ennyd, a chlywid y tonnau bach yn curo ar y lan. Yna llefarodd rabbi Hillel,—

“ Fy mab, y mae gwers i ti yn yr hanesyn. Tydi dy hun yw'r gwas, Duw yw'r meistr trugarog roddodd ryddid a golud fwy na llond llong iti. Y byd hwn ydyw ynys yr ysbrydion. Y byd tragwyddol yw'r ynys anghyfannedd. Gwrando dithau hefyd ar Ysbryd Doethineb.”

DIALEDD IFAN.

Y DYDD o'r blaen, wrth grwydro drwy'r hen fro, gwelais amaethwr ynghanol ei blant yn ceisio troi'r defaid i'r ysgubor. Yr oedd y plant hynaf yn help mawr iddo; am y rhai bach, byddent ambell dro yn help i yrru'r defaid at yr ysgubor, ond yn llawer amlach safent yn union ar eu llwybr, gan eu gwylltio oddiwrth y drws. Rhedodd y lleiaf un i'w canol pan oeddynt wedi dechreu mynd i mewn, gan feddwl fod y gwaith wedi ei orffen, i gydio yng nghynffon y ddafad olaf; ond gwylltiodd y defaid, a diangasant i'r dde a'r aswy, ac aeth llafur oriau'n ofer. Daeth llinell i'm meddwl wrth weld y bychan,—

“ Something between a hindrance and a help.”

Daeth ychwaneg na llinell enwog Wordsworth i fy meddwl. Cofiais am yr amaethwr helbulus hwnnw'n fachgen ieuanc, newydd adael yr ysgol. Mab Glan y Nant, tyddyn helaeth ar fin y mynydd, oedd. Nid oedd llawer o allu ynddo; ond yr oedd yn llawn o ryw uchelgais yn ymylu ar ffolineb. Nid oedd neb â'i *leggins* yn loewach ar ddiwrnod ffair, nid oedd neb a chymaint o rubanau melyn ffam ym mwng a chynffon ei geffyl gwedd, nid oedd neb fedrai siarad mor fawreddog am ei orchestion amaethyddol yng nghwmni merched ieuaine. Fel engraifft o wawd miniog merch ffarm cafodd ateb i lythyr caru unwaith, —ond rhaid gadael hwnnw tan ddof at hanes carwriaeth Sian y Glyn.

Yr oedd rhyw awydd yn Ifan Glan y Nant am ddefnyddio powdwr. Tyllu cerrig a'u saethu oedd ei hoff waith y dydd; a saethu cwningod a phetris wedi nos. Yr wyf yn cofio i mi fynd allan gydag ef wedi nos unwaith. Pan oeddym ar ael y mynydd, daeth yn ystorm o wlaw; ac ni chawsom y noson honno ond ysgwrs, dan gysgod carreg fawr, wrth weld yr ystorm yn ysgubo yng ngoleu'r lleuad dros y dyffryn odditanodd. Ni roddaf yma ond y rhan o'n hysgwrs sydd yn perthyn i'r ystori hon.

“Mi fydda i'n meddwl, fachgen,” ebe Ifan, gan feddwl am wr pur gas ganddo ef, “mai ffwl ofnadwy ydi cipar, ac mai ffwl mwy ydi gwr bynheddig.”

“Pam 'rwyf ti'n meddwl hynny?”

“Wel, pe baswn i'n wr bynheddig, mi faswn i'n rhoi dyn du'n gipar.”

Bu distawrwydd am dipyn, ac ni wyddwn i beth oedd Ifan yn feddwl. Ond deallais cyn hir ei fod dan yr argraff fod dyn du'n gweld wedi nos. Ni fynnai

ei ddarbwylllo, dyna ddywedai ar ddiwedd pob ymresymiad,—

“ Mae'n siwr i fod o, iti, a chath ddu hefyd.”

Trodd yr ymddiddan cyn hir ar wyddoniaeth a darganfyddiadau, ac ebe Ifan,—

“ Un peth leiciwn i glywed bod nhw wedi neyd, a hynny ydi gwn heb ddim powdwr ynno fo. Mi fedrwn saethu gwningen felly heb i neb glywed sw'n yr ergyd.”

Ychydig ddyddiau wedyn, yr oeddwn yn digwydd darllen papur newydd, a daeth dymuniad cryf Ifan i'm meddwl wrth ddarllen a ganlyn,—

“ THE GREAT DISCOVERY OF THE AGE.—A new noiseless gun. No powder required. Ammunition packed with it in box. Will kill a rabbit at a good distance. Price 1/6, by post 19 stamps. Apply direct to John Bottom, 112, Gull Street, Birmingham. Mention this paper.”

Rhedais â'r papur,—wedi edrych y geiriau i gyd mewn geiriadur.—i gae Glan y Nant, lle'r oedd sw'n Ifan dros yr holl fro'n tyllu carreg. Prin y medrai yr un ohonom goelio fod erfyn mor ardderchog o fewn ein cyrraedd, a phenderfynasom beidio colli munud o amser i yrru am dano. Drwy roddi ein holl gredit ein dau ar ei eithaf, medrasom godi digon o arian mewn tridiau i gael y pedwar stamp ar bymtheg. Myfi oedd i ysgrifennu, a llawer gwaith y deydodd Ifan.—

“ *Cofia* di beidio deyd wrth neb, rhag ofn i Wil y Rhos a Thwm y Fawnog gael rhai 'run fath a fo. Un go lib wyt ti. A *chofia* ddeyd mai yn y papur ene y gwelsom ni hanes y gwn. Ma fo'n deyd, 'mension ddus pepar ;' ac os torri di'r amode, hwrach na yrran nhwthe mo'r gwn.”

Anfonwyd y stampiau, a phrin y medrem gysgu'r nos gan ddisgwyl am y gwn. Dyfalem wrth ein gilydd tebyg i beth fyddai, faint oedd ei hyd. a mil a mwy o bethau. " Ffor bynnag," ebe Ifan ar ddiwedd llawer ysgwrs, " mi fydd gennon ni wningod beth ofnadwy. Yn diar i mi, mae celfyddyd yn beth rhyfedd hefyd, deydweh chi fynnoch chi. Dydi cipar na gwr bynheddig yn ddim byd wrthi hi."

Ar fore hir-ddisgwyliedig eis i'r pentref. Llamodd fy nghalon o lawenydd pan ddywedodd y post-feistr fod yno barsel bychan i mi. Gofynnais iddo fel ffafr a beidiai a dweyd wrth neb fy mod wedi ei gael. Ond yr *oedd* yn fychan, dim ond rhyw bedair modfedd o hyd, peth bychan iawn i ateb disgwyliadau cynhyddol tri diwrnod. Eis âg ef yn syth i Ifan heb ei ddatod; a chlywodd y wlad swm y tyllu cerrig yn distewi.

" Yn diar i mi," ebe Ifan, pan welodd y pecyn, " yn tyde'n nhw'n medru rhoi peth dinistriol mewn sym bach."

Agorwyd y pecyn yn ochelgar, rhag ofn i'r gwn ladd un ohonom, neu falurio'r garreg oedd o dan ein traed. Ond erbyn agor pob peth, nid oedd y gwn ond y peth eiddilaf welodd neb erioed,—cafn bychan â lle i roddi pelen fechan fach ynddo fo, a spring ddur fechan i hitio'r helen drwyddo. Boes papur, gyda thipyn o beleni tebyg i lygad gwibedyn, oedd yr "ammunition." Gwelsom ar unwaith y gallasai un ohonom fentro gadael i'r llall saethu i'w lygad o bellder dwylath, a bod yn ddianaf.

" Yr anwyl anwyl," ebe Ifan, yn nvfnder ei siomiant, " ym medrwn i brynnu un gwell na hwn am ddime yn siop Sali'r Mineag yn y pentre."

Eis i adre'n bendrist iawn. Teimlwn mai myfi oedd wedi ein dwyn ein dau i'r siomedigaeth hon. Ni wyddwn a oedd yn bosib rhoi cyfraith ar John Bottom, gwyddwn fy mod wedi dwyn celfyddyd i warth yng ngolwg Ifan Glan y Nant.

Nos drannoeth daeth Ifan i'n tŷ ni i holi am danaf. Wedi cael lle ein hunain, edrychodd arnaf yn ddoeth, a dywedodd mewn tŷn ddieithr,—

“Mi fase'n well i'r hen Fottom beidio.”

Aethom allan gyda'n gilydd at lidiart y flodd, a phan aethom yno, tynnodd Ifan rywbeth yn ofalus o'r gwrych. Briesen oedd.

“Dyma i ti, cer â hon i Dafydd Sion y Post, a gofyn iddo fo i lapio hi a'r gwn mewn papur llwyd glân. Wedyn tor ddreisiwn yr hen Fottom arni, a gyrr hi iddo fo heb dalu'r post; *heb dalu'r post*, cofia.”

Dechreuodd Ifan ddarlunio'r gwyneb wnai'r “hen Fottom,” chwedl yntau, wedi datod y parcel, ond methodd ddweyd llawer gan chwerthin

Eis â'r friesen i'r Post wrth fynd i'r ysgol bore drannoeth. Lapiwyd hi'n ofalus, ond pan ddywedais fy mod am ei gyrru drwy'r post heb dalu ar ei hol, rhoddodd Dafydd Sion ei ddwy law ar y cownter, a gwenodd arnaf mewn distawrwydd. Un hynod iawn oedd Dafydd Sion. Efe a roddasai wybodaeth nacael bwysig am gyrehfannau'r Gŵr Drwg i fachgen ddaethai yno i ofyn am *asafætida* wrth ei enw gwerinol.

“Machgen i,” meddai, “yr ydw i'n dy nabod di ac Ifan Glan y Nant, ac mi wn am eich triciau chwi.”

Gwridais at fy nghlustiau, gan gofio am dric y llythyr caru. Rhoddais y friesen dan fy nghesail, a chychwynais allan yn drist, gan feddwl na chai Ifan

ymddial wedi'r cwbl. Yr oedd Dafydd Sion bron ymdorri gan ddigllonedd neu chwerthin. Ebai ef, pan oeddwn yn y drws,—

“ Rydw i yn ych nabod chi ; ond hwraeh nad ydi pobol y rêl wê yn y dre ddim.”

Yr oedd Dafydd Sion yn ddiacôn yn y Capel Draw.

Aeth Ifan â'r fricsen i'r dref yn ffyddlon y diwrnod ffair nesaf ; a dyma'r sgwrs, ebai ef, fu rhyngddo â dyn y ffordd haearn,—

“ Gai yrru'r parsel yma i Firmingham ? ”

“ Cewch siwr. Talu yma ? ”

“ Na, talu *ono*.”

“ Bydd raid i'r Mr. Bottom yma seinio ei fod wedi cael y parsel yn ddiogel, a thalu.”

“ O mi 'neiff Mr. Bottom dalu, ond i chi ofalu na thorrweh chi mo'r fri ——— gwydr.”

Y diwrnod wedyn daeth Ifan ataf yn llawen iawn, a dywedodd,—


“ Dal di sylw ar y papur hwnnw lle'r oedd hanes y gwn. Mi fydd hanes torri'r hen Fottom o'r seiat yn y rhifyn nesa am ddeyd geiriau mawr.”

AR YSTOL Y GOSB.

CHWI welweh Gwen yn eistedd ar ystol y gosb, dan ddirmyg mawr. Y mae y plant i gyd yn ei gweld yn y fan acw, a chap y cywilydd am ei phen. Y mae ei chalon fach yn llawn ; y mae'n edrych i lawr, ac yn rhoi aml ochenaid. Y mae'n cofio mor anwyl yr oedd ei mam yn ei chusanu yn y



AR YSTOL Y GOSH.



bore, a daeth hiraeth mawr arni am gael bod ar lin ei mam i wrando ar ryw ystori.

Beth oedd Gwen wedi wneyd ? Wel, a welwch chwi'r llechen sydd ar lawr yn ei hymyl ? Yr oedd yr athraw wedi peri iddynt liosogi 213 â 2. Yr oedd yn waith hawdd, ac yr oedd pob un wedi gwneyd ond Gwen. Y mae ei gwaith ar lawr wrth ei hochr, a hithau'n gorfod eistedd ar ystol y gosb, a chap y gwarth am ei phen.

Ond waeth heb son, ni fedrai Gwen ddim dysgu, er ei bod wedi treio ei goreu. Ond yr oedd yn un o'r genethod bach mwynaf a charedicaf yn yr holl wlad. Medrai ddweyd y gwir, medrai wneyd pob peth ddywedai ei mam wrthi, a medrai gadw ei brodyr bach yn ddiddig,—ac onid ydyw hyn yn llawer mwy na medru gwneyd sym ?

Beth yw ystyr y gair *dunce* sydd ar y cap ? Enw dyn ydyw, enw Duns Scotus. Ysgolhaig mawr oedd ef, ond daeth pobl eiddilach ar ei ol, a thybient nad oedd Duns yn ddim o'i gymharu â hwy, a galwasant bawb byrr ei ddeall yn *dunce*.

Gwn lle mae Gwen heddyw. Y mae ei chalon hael, garedig, yn ei gwneyd yn anwyl i bawb, ac y mae wedi medru gwneyd llawer gwaith mil anhaws na "multiply 213 by 2."

Peth anodd ydyw dysgu ; ond y mae plant bach ufudd yn siwr o ddysgu'n iawn, ond iddynt dreio, a chael digon o amser.

CWN ADWAENWN I.

I UN o blant y mynyddoedd fel myfi, yr oedd cwn yn gyfeillion mebyd. Gyda'm ei wrth fy sawdl, bum gannoedd o weithiau'n gwylio emrynt y wawr yn agor neu yn rhyfeddu wrth weld y niwl yn ymestyn fel llaw cawr i fyny ar hyd wnech y creigiau.

Bum lawer gwaith yn meddwl yn ddirifol rhyngof â mi fy hun yn mha beth mewn gwirionedd y mae y dyn sala yn well na rhai o'r cwn adwaenwn i. Mi adroddaf hanesyn neu ddau i ddangos fod gan gi ryw lun o gof a deall a serch a rheswm a chydwybod ac ewyllys ac iaith; a gwyn fyd na fuasai gan bob dyn gymaint ar ei elw. Yn wir, gwelais lawer ei a chymaint yn ei ben fel y buasai arnaf gymaint o ofn ei saethu a saethu dyn; ac mae'n biti garw os caiff rhai dynion adwaenwn i ddyfod o'r graean tra na chaiff cwn ddim. Gwelais ddau neu dri o bersoniaid mewn gwisgoedd gwynion uwchben arglwydd gwlad ac yn dweyd y codai mewn gogoniant; a gwelais ddwy neu dair o frain mewn cotiau duon ar ochr y mynydd uwchben corff ei oedd wedi gwneyd llawer mwy o droion cymhwynasgar a llawer iawn mwy o ddaioni, troent eu pigau i'r cyfeiriad yma ac i'r cyfeiriad acw, a dywedent wrth eu gilydd y medrent fentro dechreu arno, na chodai o ddim yn siwr.

Yr wyf yn cofio un ei rhagrithiol iawn. Elai i rai o'r ffermdai tuag amser dyledsdydd deuluaid, gyda golwg ddefosiynol iawn arno. Wrth weld crefydd-older ei wedd, gadewid iddo aros wrth y tân gyda'r cwn ereill; ond mor fuan ag y byddai'r bobl ar eu gliniau, cerddai Sam yn ysgafn tua'r llaethdy, a thra

diolchid am drugareddau beunyddiol byddai Sam yn hel wnech y dysglau llefrith ac yn mwynhau'r hufen melyn.

I'r capel yr oedd tyniad Pero Sion Ffowc, a gellid meddwl mai efe oedd y ci mwyaf crefyddol yn Llan y Mynydd. Unwaith yr oedd mewn cyfarfod gweddi yn yr hen gapel, ac yr oedd Gruffydd yr Hendre, y gweddiwr mwyaf hyawdl fu yn Llan y Mynydd, ar ei liniau wrth y faine yn gweddio. Pan oedd Gruffydd ar ganol ei weddi mewn flrwd o hyawdledd, teimlodd drwyn oer rhywbeth ar ei ên. Agorodd ei lygaid, gwelai Bero Sion Ffowc yn eistedd am y faine ag ef mor ddirifol a sant. Tarawodd ef nes oedd yn rholio dan y meinciau, ac yna aeth ymlaen gyda'i weddi fel pe na buasai dim wedi digwydd.

Cariad brawdol nodweddai'r hen Fflei Coedladur. Lladratawyd ef unwaith, ac awd âg ef dros ugain milltir o fynyddoedd i Lanfyllin i'w werthu. Yno medrodd ddianc, ond cafodd gosfa gan fastiff wrth ddod adre. Yr oedd brawd iddo yn y Plas, daeth adre at hwnnw, ac aeth y ddau dros y mynydd yn ol i Lanfyllin a gwnaethant groen y mastiff yn gareiau.

Yr wyf yn cofio un hanes dirifol am gi, nid ei defaid o waed cyfa, yr oedd ei daid o ochr ei fam yn waedgi. Yr oedd rhyw gi yn lladd wyn, ac nid oedd neb, er gwyllo a gwyllo, wedi cael allan pa gi oedd y llofrudd. Ond o'r diwedd daeth bugail Nant Blodau'r Gaeaf a dywedodd ei fod yn sier iddo weld Nero rhwng dau a thri o'r gloch y bore yn lladd oen wrth oleu'r lleuad ar waelod y cwm. Dywedasant fod hynny yn amhosibl, gan fod Nero wedi ei gau yn y ty yn ddiogel, ac awgrymasant yn bur eglur fod y bugail yn dweyd peth nad oedd wir er achub ei gi ei hun. Cyn hir

tystiai bugail arall iddo ei weld wrth y gwaith anfad. Ond y noson honno hefyd yr oedd Nero wedi ei gloi yn y gegin. O'r diwedd dywedodd merch y ty y buasai hi yn cysgu ar yr ysgrin i weld a oedd Nero yn medru mynd allan, ac aeth y dynion i'r caeau i wyllo. Gorweddodd Enid ar yr ysgrin a chymerodd arni gysgu tra'r ei yn gorwedd o flaen y tân. Ymhenn hir a hwyr dechreuodd y ci anesmwytho, cerddodd at yr ysgrin, daliodd ei drwyn wrth wyneb yr eneth yn hir, ac o'r diwedd gwnaeth ei feddwl i fyny ei bod yn cysgu. Yna cerddodd at y ffenestr, cōdodd y glicied, agorodd hi, ac wedi edrych yng nghyfeiriad yr ysgrin unwaith yn rhagor neidiodd allan. Ymhenn yr awr dringodd i'r ffenestr yn ei ol, a chauodd hi yn ofalus a'i bawen. Yna aeth at Enid, a chlywai yr eneth ei anadl boeth ar ei gwyneb, yr oedd ymron a gwaeddi gan ddychryn, ond gwyddai y lladdai y ci hi os gwnai. Penderfynodd y ci ei bod yn cysgu, a gorweddodd wrth y tân, ond taffodd ei olwg ati'n aml, fel pe'n ddrwgdybus o honi. Y bore ddaeth, a chydag ef y dynion i'r gegin. Ni chymerai y ci un sylw ohonynt, ond edrychai'n ddyfal ar Enid o hyd. Mor fuan ag y gwelodd y dynion, collodd yr eneth ddewr bob llywodraeth arni ei hun, a dechreuodd waeddi mewn ofn. Gwelodd y ci ei dychryn, deallodd ei bod wedi ei weld, ac aeth yn gynddeiriog ar unwaith, yndrechodd neidio ati yn ei gynddaredd, ac oni bai iddo gael ei saethu yn union buasai Enid wedi talu ei bywyd am ei hyfdra yn gwylio a bradychu y ci. Nid oedd neb erioed wedi gweld tuedd greulawn ynddo o'r blaen, yr oedd pawb yn hoff o hono, a buasai yntau yn ymladd dau fywyd dros Enid. Nis anghosiodd y rhai a'i gwelsant yr olygfa byth, yr oedd y ci mor



CHWILFRYDEDD.

debyg i ddyn a'i bechod yn troi yn uffern id lo ; ac ni chafodd Enid, er dewred oedd hi, awr o iechyd ar ol y noson honno.

Unwaith bum yn hoff iawn o gŵn, ac yr oeddwn wedi tynnu cydnabyddiaeth â chrach foneddwr oedd yn awdurdod ar achau ciaidd. Dois adre'r tro cyntaf wedi bod "i lawr," sef yng Nghaer, yn dipyn o lanc. Gofynnais i hen fachgen o filwr, Sais wedi dysgu Cymraeg,—

"John Brown, pwy ydi tad y ci braf yna ?"

"Wyt ti'n gwybod hen buwch moel Sian Sion ?"

gofynnai, trwy ei drwyn.

"Ydw."

"Wel, nid honno."

Ni soniais i wrth neb am achau cwn wedyn.

BETH SYDD YNDDO ?

'ROEDD Hedd bach chwilfrydig yn crwydro
ryw dro

Trwy eang stafelloedd ty modryb ;
Aflonydd iawn oedd, un yn chware o hyd,
A'i fysedd bach prysur, yn fywyd i gyd,
Nid oedd un prysurach o fewn yr holl fyd
Na'r Hedd bach chwilfrydig a grwydrai ryw dro
Trwy eang stafelloedd ty modryb.

'Roedd yno ystafell ymhen pella'r ty,

A llawer peth rhyfedd yn honno ;

Ymysg pethau ereill 'roedd blwch wedi ei gau,

Ac wedi mynd yno, mhen munud neu ddau,

'Roedd Hedd bach yn ceisio ei agor yn glau,

Draw yn 'r ystafell ymhen pella'r ty,

A llawer peth rhyfedd yn honno.

“ Mae'r blwch yn bur anodd ei agor,” medd Hedd,
 “ Pa drysor, caf weled, sydd ynddo,—
 Rhyw daffi melusaf a brofais erioed,
 Neu dderyn fu'n canu ar frigau y coed,
 Neu ddoli yn aur o'i phen i'w throed ;
 Mae'r blwch yn bur anodd ei agor,” medd Hedd ;
 “ Pa drysor, caf weled, sydd ynddo.”

Prysurach, prysurach, oedd y bysedd o hyd,
 Gan awydd i weld beth oedd ynddo ;
 O'r diwedd cawd clicied bach gudd,—
 “ Fy nhrasserth yn fwyniant a drydd,
 O'r blwch rhyw ryfeddod a fydd,”
 Ebe Hedd, a'r bysedd yn brysur o hyd,
 “ *Yn aur mi gaf weld beth sydd ynddo.*”

SAM.


MILGI oedd Sam, ei main buan, llwyd ei flew.
 Yr oedd yn gyfrwys ac yn garedig, a bu yn
 gyfaill cywir i ni am lawer blwyddyn.

Ci amaethwr oedd. At hela y cedwir milgwn, ond
 dywedai'r amaethwr hwnnw na fyddai Sam byth yn
 dal na chwningen nac ysgyfarnog ; ni wnai ond
 hannos y defaid yn unig. Rhedai oddiwrth y ty i
 fyny'r mynydd mawr oedd gyferbyn, a rhyfedd mor
 fuan oedd. Prin y diangai'r defaid rhagddo,
 gwyddent na frathai Sam hwynt.

Un cyfrwys iawn oedd, a rhaid cyfaddef y lladratai
 ambell i dro. Cydiai mewn dysglaid o fwyd gerfydd
 ei hymyl, ac ai â hi ymhell i fwrdd, i'w mwynhau



DYCHRYN.



mewn tawelwch. Ond ni ddeuai â'r ddysgl wâg byth yn ol. Yr oedd yn gwybod ar wyneb ei feistr beth oedd yn ei feddwl.—yswatiai y tu ol iddo os byddai gwg ar ei wyneb, llamai mewn llawenydd o'i gwmpas os byddai'n gwenu. Yr oedd gan Sam gydwybod hefyd, a byddai golwg euog arno yng ngwydd ei feistr pan fyddai wedi bod ar ei ddrwg.


Er fod gan Sam gydwybod, prin y gellir dweyd ei fod yn gi duwiol. Yr oedd amaethdy mawr yr ochr arall i'r plwy, ac yno yr oedd blaenor y seiat yn byw. Gwyddai Sam pryd y byddai'r ddyledswydd deuluaidd yn y bore, ac mor fuan ag y byddai'r teulu ar eu gliniau, byddai Sam yn y bwtri yn hel yr hufen. Gwyddai oddiwrth oslef y gweddiwr pryd yr oedd y weddi'n tynnu at y terfyn; a phan godai'r teulu oddiar eu gliniau, ni welent ond cynffon hir Sam yn diflannu trwy'r drws.


Ond er amled ei driciau, yr oedd Sam yn garedig ac yn barod i amddiffyn y gwan. Gorweddai'n gylch ar yr aelwyd, a llawer gwaith y rhoddwyd y babi i gysgu'n dawel ar ei gefn. Ni symudai Sam oddiyno tra byddai'r bychan ar ei gefn, er ei demtio âg asgwm wrth ei fodd.

Ryw dro yr oedd y babi'n cysgu yn yr awyr agored, a Sam yn gorwedd yn dawel dan ei lwyth, gan agor ei lygaid ambell waith i edrych sut yr oedd y byd yn mynd ymlaen. Yr oedd y tad a'r fam oddicartref, a chlywyd gwaedd yn dod oddiwrth y plant ereill. Mastiff mawr oedd yno, wedi dianc o'i gartref, a darn o'i gadwen yn crogi am ei wddf. Gwyddai'r plant am dano, a diangasant am eu bywyd i'r ty, gan gau y rhagddor ar eu holau. Wrth edrych dros y rhagddor, gwelent y babi. Yr oeddynt wedi anghofio am dano,

ac ni feiddient redeg allan i'w geisio. Yr oedd y mastiff, a'i safn fawr waedlyd, yn dod yn agosach i'r babi o hyd : ofnai'r plant weld Sam yn dianc, gan adael y babi i'r mastiff mawr. Gwelodd Sam y mastiff cyn hir, ymryddhaodd oddi tan y babi, a cherddodd i gyfarfod y gelyn, gan sefyll rhyngddo a'r plentyn bach. Bu brwydr ffyrnig rhwng y ddau gi, ond cyn pen ychydig o funudau yr oedd Sam wedi cydio a'i ddannedd yn asgwrn cefn y mastiff, ac yr oedd hwnnw'n udo am ei fywyd. Synnai'r plant wrth weld y mastiff yn dianc nerth ei draed rhag un mor fain a Sam.

Ryw ddydd daeth galar mawr i gartref Sam. Daeth ceidwad helwriaeth y meistr tir heibio, a dywedodd fod yn rhaid ei yrru ymaith. Yr oedd y plant yn wlo wrth weld eu cyfaill dewr yn goriod ymadael, ac ni wyddant hyd heddyw ym mha le y mae





ADIPHILON TYHUS.

TYRUS.

O HOLI, ddinasoedd y ddaear, nid oes odid un â hanes mor hir ac mor gyffrous a Thyrus. Awn yn ol cyn belled ag y medrwn i oesoedd bore hanes dynol ryw, cawn Dyrus yn enwog am ei masnach ac am geinder y gwaith a wneid ynddi.

Un o'r penodau prydferthaf yn y Beibl, o ran dull llenyddol, yw y seithfed ar hugain o Eseciel. Ynddi darlunir Thyrus, brenhines masnach y byd, fel llong. Yr oedd tai Thyrus yn uchel,—ar beurlhyn ac ar ynys yr adeiladasid hi, ac yr oedd lle sylfaen yn brin,—yn codi'n hardd fel hwylbrennau llong, ac nid, fel dinas-oedd ereill, yn yswatio ar y ddaear megis.

“O dydi yr hon wyt yn trigo wrth borthladdoedd y môr, marchnadyddes y bobloedd i ynysoedd lawer, Thyrus, ti a ddywedaist,—‘Myfi wyf berffaith o degweh.’ Dy derfynau sydd ynghanol y môr; dy adeiladwyr a berffeithiasant dy degweh. Adeiladasant dy holl ystyllod o ffynidwydd o Senir; cymerasant gedrwydd o Libanus i wneyd hwylbren i ti. Gweithiasant dy rwyfau o dderw o Basan; mintai yr Asuriaid a wnaethant dy feinciau o ifori o ynysoedd Chittim. Llian main o'r Aifft o symudliw oedd yr hyn a ledit i fod yn hwyl i ti, glas a phorffor o ynys-oedd Elisah oedd dy dô. Trigolion Sidon ac Arfad oedd dy rwyfwyr; dy ddoethion di, Thyrus, o'th fewn, oedd dy long lywiawdwyr.”

Rhydd Eseciel ddarluniad ardderchog o ffeiriau Thyrus. Ceid ynddynt nwyddau pellderoedd Môr y Canoldir,—arian, haearn, alcan, a phlwm. Ceid ynddynt nwyddau'r dwyrain hefyd,—caethion a llestri

pres ; meirch a mulod ; cyrn ifori ac ebenus ; carbuncl, porffor, gwaith edau a nodwydd, llian meinllin, a chwrel, a gemau ; gwenith a mel ac olew a thriagl ; gwin Helbon a gwlan gwyn ; cassia a'r calamus ; wyn, hyrddod, a bychod ; per aroglau, pob maen gwerth-fawr, ac aur ; pethau godidog,—brethynau gleision, gwaith edau a nodwydd, a chistiau gwisgoedd gwerth-fawr, wedi eu rhwymo â rhaffau a'u gwneuthur o gedrwydd. “ Llongau Tarsis oedd yn canu am danat ; a thi a lannwyd, ac a ogoneddwyd yn odiaeth ynghanol y moroedd.”

Ac yna daw'r desgrifiad o gwmp Tyrus, pan fyddai pob morwr yn wylo, ac yn cwynfan “ Pwy oedd fel Tyrus, fel yr hon a ddinistriwyd ynghanol y môr ? ”

Daeth traeth Tyrus yn fan brwydr rhwng y galluoedd oedd i lywodraethu'r byd. Ymosododd Alexander Fawr arni, a chymerodd hi trwy wneyd ffordd o'r cyfandir i'w hynys. Wedi hynny codwyd ei chaerau i wrthwynebu'r Saraseniaid ; ac y mae ei hanes yn ddyddorol ryfeddol yn hanes Rhyfeloedd y Groes. Erbyn diwedd y ganrif ddiweddaf yr oedd distawrwydd anghyfanedd-dra'n teyrnasu dros yr ynysig grcigiog ar yr hon yr eisteddai brenhines urddasol y moroedd gynt. Ond, erbyn hyn, y mae'n gyfaneddol eto. Ceisir plannu coed a gosod pebyll ar y gwastadedd sydd ar ei chyfer. Ond y mae lle Tyrus yn afiach ; ac y mae'n debyg yr erys geiriau Eseciel yn wir,—“ Dychryn fyddi, ac ni byddi byth mwyach.”



MEWN CYFYNGDER.

YR oedd cwch ryw fore ar draeth sir Fon, yn barod i'w berchennog fynd i'r môr i saethu adar gwylltion. Yr oedd dryll llwythog ynddo hefyd. Yr oedd pump o blant yn mynd heibio i'r ysgol, a gwelent y cwch yn wâg. Aethant iddo i eistedd; a rywsut, heb iddynt wybod, llithrodd y cwch i'r môr. Yr oedd y tonnau'n cario'r plant yn gyflym i'r môr mawr. Gwaeddasant, ond nid oedd neb yn y golwg i estyn cymorth iddynt. Yr oedd y tonnau'n mynd yn fwy o hyd, a'r cwch yn rhuthro'n wylltach ymlaen uwchben y dyfnder mawr. Ac yr oedd y tir yn mynd yn bellach bellach o hyd, ac nid oedd obaith y clywai neb eu llais.

Cofiodd un o'r bechgyn fod y dryll yn y cwch. Nid oedd yr un ohonynt wedi cydio mewn dryll erioed o'r blaen; ac yr oedd arnynt fwy o'i ofn na phe buasai'n sarff wenwynig. Ond rhoddodd y bachgen sawdl y gwn wrth ei ysgwydd, ac anelodd ei ffroen i'r awyr. Mewn ofn mawr edrychai'r plant ereill arno'n tanio. Ergyd! Dyna glee fawr, a llond y cwch o arogl powdwr. Dacw rywun ar y lan. Dacw gwch arall yn dod ar eu holau, a dynion cryfion yn ei rwyfo. A chyn pen ychydig iawn yr oedd y plant ar y lan. Ond yr oedd yn rhy hwyr iddynt fynd i'r ysgol.

MYND I BYSGOTA A DOD ADRE.

“ **H** ELO! holl blant y wlad, dowch yma i'm
gweled i
Yn mynd i ddal y pysgod sy'n nofio yn y lli;
Mae'r enwar ar fy ysgwydd, a'r llinyn wrthi'n siwr,
A dŵr o fewn y llestr hwn, ac abwyd yn y dŵr.

“ Mae gennyf fwyd ddigonedd o fewn y bwndel hwn,
Waith treuliaf wrth yr afon y dydd i gyd yn grwn;
Er cymaint ydyw'r Hafren, er amled ei physg hi,
Heno os bydd un ar ol mae'n rhyfedd iawn gen i.

“ Dof heibio wrth fynd adre a'm pysgod yn fy llaw
Os medraf gario'r oll a ddaliaf yn yr afon draw;
A byddwch chwithau'n dwedyd wrth weld fy
nghawell llawn,—
'Wel, dyma wr bonheddig sydd yn bysgotwr
iawn!' ”

Ar derfyn y dydd hwnnw eis heibio bwthyn hen,
Ac i'r hen wr ar ben y drws gofynnais gyda gwên,—

“ Fy ewythr Edward William, a welsoch chwi fonedd-
wr iawn,
Yn mynd adre oddiwrth yr afon, a'i gawell pysgod
yn llawn? ”

“ Hm! ” meddai'r henwr sychlyd, “ mi welais yn fy
nydd.
Do, lawer golwg dligri, a llawer golwg brudd;
Ond pasiodd creadur heibio ryw hanner awr yn ol
Wnaeth i mi chwerthin, fachgen, nes tybiet 'mod i'n
ffol.




MYND.





DOD ADRE.



“ 'Roedd bachgen Wil y teiliwr, un balch a drwg yw'r
 cna',
 Yn mynd adre o bysgota. A be gwelset ti o ? Ha !
 Ha ! Ha !
 Wrth edrych ar ei gyflwr, tybiaset ti yn siwr
 Fod y pysgod wedi ei ddal o, a'i dynnu o hyd y
 clwr.”

CERBYDAU.

DEFNYDDIR llawer math o anifail i dynnu cerbydau. Ar wastadedd Etruria gwelais bedwar eidion gwyn yn tynnu cerbyd, a'r tresi am eu pennau, oherwydd yn ei ben y mae nerth yr ych. Gwelais wr cyfoethog ym Mbaris â phedwar zebra, yn eu prydfferthwch amryliwiog, yn tynnu ei gerbyd trwy'r ystryd. Peth cyffredin iawn yw gweld cwn ar y cyfandir yn tynnu troliau, ond ni chaniata cyfraith y wlad hon iddynt gael eu rhoi mewn caethiwed felly. Y march yw'r goreu am dynnu cerbyd, neu'r asyn amyneddgar.

WIL DDRWG.

YR oedd dau fachgen yn yr hen Lan a llysenwid Wil Ddrwg a Ben yr Ofn. Y mae gwyneb y ddau'n esbonio eu llysenwau,—un ofnus iawn oedd Ben, ac un direidus iawn oedd Wil. Ryw dro cyflogwyd Ben gan y person i chwynnu ei ardd. Dywedid fod ysbryd rhyw hen ladi yn yr ardd ; ac yr oedd yn rhan o delerau cyflogiad Ben ei fod i gael dod o'r ardd cyn nos.

Cafodd Ben well cinio nag arfer yng nghegin y person. Eisteddodd ar y faine yng nghefn y tŷ cyn dechreu chwynnu. Teimlai'n gysglyd iawn; llithrodd i lawr ar y glaswellt, a chyn hir gallesid clywed chwyrnu soniarus yng ngardd Mr. Jones y Person.

Yr oedd dau lygad llon ac effro iawn yn edrych dros y mur ar Ben yr Ofn yn pen-dwmpian ac yn eysgu.

Dringodd Wil dros y wal, safodd ger Ben y tu ol i goeden fawr. Yr oedd Ben yn bur anesmwyth yn ei gwsg, a gwelai Wil ei fod yn breuddwydio. Tybiai mai Saesnes oedd y "ledi;" a gwaeddodd mewn llais main,—

" Benjamin, what iw dw hiar ? "

Deffrodd Ben, a dychryn wedi ei argraffu ar ei wyneb. Edrychodd y tu ol i'r goeden yn ofnus, ond ni welai ddim. A daeth llais main wedyn,—

" Benjamin, iw plants drwg, whei iw dryllio mei chwyn ? "

" Wna i ddim byth eto," llefai Ben mewn ofn mawr, " na wna byth, cered yr hen berson i'w dagu."

Ond erbyn hyn yr oedd Ben yr Ofn wedi ymgripio yn ddigon pell i weld esgid Wil Ddrwg. Mentrodd edrych i fyny, ac yn lle gwyneb erchyll y "ledi," beth welai ond llygaid Wil Ddrwg, a'u llond o ddireidi a chwerthin.

Y CYNHAEAF.

DYDDIAU hyfryd iawn yw dyddiau'r cynhaeaf yd a gwenith, a bydd y plant yn hoffi dilyn y wedd i'r cae, neu edrych ar dafu'r ysgubau i'r ydlan.

Mae'r hin yn dyner, ac awel falmaidd yn chwythu'n









ysgafn, ac y mae tawelwch dwfn dros y wlad gyfoethog ac addfed. Ac mor euraidd yw'r caeau gwenith! Mor hardd yw'r haidd a'r ceirch, a border o adlodd gwyrdd o'i amgylch!

Un o'r rhai balchaf ar y cae, mae'n debyg, yw'r hogyn twyso. Efe sy'n cydio ymhen y ceffyl blaen, tra'n sefyll i lwytho ar y cae, ac efe sy'n ei dywys tua'r gadles. Bydd ei fraich a'i goesau wedi blino llawer cyn y nos, ond dywed ei fam wrtho y daw'n ddigon cryf i lwytho cyn hir, neu i godi i ben y llwyth.

Cyn hir dynir yr yd, â pheiriant neu â flust. Yna anfonir y grawn i'r odyd, i'w grasu. Oddiyno cludir ef i'r felin, a melir ef yn flawd neu beilliaid, —ac o hwn gwneir bara i ni i'w fwyta.

Ond cedwir peth o'r grawn heb ei grasu na'i fahu. Had y flwyddyn nesaf hwn, a haur ef pan ddaw'r gwanwyn.

COLIGNI.

DYMA'R enw mwyaf arwrol, ond odid, yn hanes Ffrainc, er mai yn ddiweddar y gadawodd y Ffrancod i'r Protestaniaid roddi cofgolofn iddo, a'r Beibl agored, uwchben eu haddoldy ym Mharis.

Dau nôd Ffrainc yn amser Coligni oedd deffroad cenedlaethol a rhyfel grefyddol. 'Doedd y gwladgarwch ddim yn ddigon cryf i uno'r pleidiau crefyddol dig,—a dyna oedd yn bwyta nerth Ffrainc yn y ganrif honno.

Amddiffyn ei wlad yn erbyn Spaen oedd amcan Coligni. Cymerwyd ef yn garcharor yn y rhyfel, ac yn unigedd ei garchar darlennodd ei Feibl yn

ddyfalach nag erioed ; a phenderfynodd ymuno â'r Huguenotiaid, gan iddo weld mai ganddynt lwy y'r oedd y gwir.


Wedi ei ryddhau, ei brif amcan oedd cadw'r heddwch rhwng yr Huguenotiaid a'r Pabyddion. Ceisiodd sefydlu gwladfa Ffrengig yn neheudir Amerig lle y gallai'r erlidiedig ddianc iddi, a chadw'r heddwch yn yr hen wlad felly. Ond methodd yn ei amcan, a daeth y gwladfawyr yn ol, wedi dioddef llawer.

Yr oedd y Guises a'r brenin Harri'r Ail mor erlidgar, fel y gorfu i'r Huguenotiaid gydio yn y cledd. Pan aeth yn rhyfel, arweiniodd Coligni ei gydgrefyddwyr mewn brwydr ar ol brwydr, gan droi methiant yn fuddugoliaeth trwy ei ddoethineb a'i benderfyniad. Gwnaeth ei blaid mor gref fel na ellid ei herlid mwy. A chydag ef yr oedd Sian brenhines Navarre, a llu o dywysogion Ffrainc. Nid y rhai lleiaf o'r rhain oedd ei frodyr ef ei hun,—y cardinal Châtillon, fu farw yn Lloegr, wedi dod i erfyn ar Elizabeth helpu'r Protestaniaid ;* a'i frawd ieuengaf hygar D'Andelot, a briodasai Lydawes.

Ond yr oedd awydd Coligni am ddyrchafu ei wlad yn gryfach hyd yn oed na'i awydd i amddiffyn ei grefydd. Denwyd ef i Baris gan ei elynion trwy addaw y cai arwain y fyddin yn erbyn y Spaenod ; a llofruddiwyd ef yn y gyflafan erchyll a elwir yn gyflafan dygwyl Bartholomeus, yn 1572.

Gŵr meddylgar, prudd, agos i'w le, eang ei gynlluniau, oedd Coligni ; un o wŷr mwyaf y canrifoedd.

*Gorwedd ei gorff yn eglwys gadeiriol Caer Gaint.





MANEG NEIFON.

MANEG NEIFION.

“ BETH ydyw hwn ? ”

Ni waeth i chwi roddi y dasg i fyny. Gwn na fedrwech ddyfeisio beth ydyw.

“ Ai llaw rhyw gawr yn dod i fyny o waelod y môr ? ”

Nage, er ei bod yn ddigon hyll i hynny.

“ Ai craig fawr ydyw, ar lun llaw ? ”

Nage, y mae'n feddal.

“ Wel, beth ydyw ? ”

Ysbwng, sy'n tyfu yng ngwaelod y môr. Gwyddoch beth ydyw ysbwng (*sponge*). Os rhoddwch ef yn y dŵr, deil ei lond o hono ; os gwesgwch ef, disgyn y dŵr yn gawod o hono. Gwn am un gŵr bach sy'n mynd â'r ysbwng i bob man,—i'r dwfr ac i'r llaeth ac i'r paent,—ac yn ei wasgu hyd ei dhillad ac hyd bob man. Ond ni wŷr ef mai darlun ysbwng yw hwnaew. “ Llaw'r bo bo ” ddywed ef am dano.

Ond math o ysbwng ydyw, a thyf yng ngwaelod y môr. Enw duw'r môr yw Neifion, ac y mae'r ysbwng aew mor debyg i faneg fel y gelwir ef yn Faneg Neifion.

Llysieuyn ydyw'r ysbwng. Tyf llawer o hono yn y Môr Coch. Pan fydd wedi gwywo ac wedi sychu y mae fel yr ydym ni yn ei gael, i'n helpu i ymolchi.

PLANT DEWR.

PLANT FYNN DDYSGU EU GWERSI.

NI D peth hawdd yw dysgu'r wers bob amser, ac y mae'n gofyn plentyn bach dewr yn ddigon aml i fynnu ei dysgu i'r diwedd.

Gwelais fechgyn a genethod lawer tro â dagrau lond eu llygaid wrth ben eu llyfrau ; ond yr oeddynt wedi penderfynu gorffen y wers er caleted oedd.

Peth hyfryd iawn yw cyfarfod yr athraw neu'r athrawes yn y bore, os byddwn wedi dysgu ein wers. Ond, os na fyddwn wedi ei dysgu, bydd ein cydwybod yn euog wrth fynd i'r ysgol, ac nis gallwn fod yn blant dewr.


“ Waeth i mi heb ddysgu'm wers.” ebe gŵr bach diog chwech oed unwaith, “ yr wyf yn siwr o'i hanghofio ryw dro.” Ie, ond wrth ddysgu'r wers yr wyt wedi dysgu gorchfygu, a medri orchfygu anhawsterau pan ddoi'n ddyn. Os wyt am fod yn ddigon dewr i wynebu llewod, ac i wneyd gwaith mawr pan ddoi'n ddyn, bydd yn ddigon dewr i ddysgu dy wers pan yn blentyn.

Y FALWODEN.


Y MAE'R falwoden, heb ei chragen, y fwyaf diam-ddiffyn o bob peth. Nid oes ganddi asgwrn cefn, nid oes ganddi draed na dwylaw nac adenydd. Ac er nas gall ddianc nac amddiffyn ei hun, y mae ei chroen yn hynod deimladwy ; er fod ei gwaed yn oer, ac yn wyn neu'n laswyn, yn lle'n goch ac yn gynnes fel mewn plant, medr deimlo poen.

Mae'r falwoden yn teimlo ac yn arogl, yn ol pob tebyg, â'i chroen. O dyllau'r croen daw llysnafedd, sy'n ei gorchuddio i gyd.

Tyf cragen y falwoden am dani. Odditan groen teneu iawn, tyf haen deneu. Odditan honno tyf haen arall, a dechreua yr un allanol sychu a chaledu. A



Y FALWODEN.





GWEN FACH.



llawer o'r haenau teneuon eiddil hyn yw'r gragen gref sydd yn dŷ ac yn gastell i'r falwoden.

Mae dulliau'r cregin yn afrifed,—mewn ffurf. mewn lliw, mewn gloewder, mewn defnydd,—yn nheulu'r falwoden a'i llu o berthynasau. Ond gwneir hwy oll yn yr un modd,—adeilada'r falwoden ei chastell am dani, bob yn haen. Medr dynnu ei chym,—a'i llygaid ar eu blaenau,—i mewn i'r gragen. Fel rheol gall ymwasgu iddi i gyd pan fydd perygl. Ond rhaid iddi anadlu drwy'r drws.

NAIN.

A WELWCH chwi Nain â'i llygad mor llon ?
A fuasech chwi'n meddwl mai hen wraig yw hon ?

Papur newydd, a spectol, a chader fawr wen,—
Nain ydyw honaew yn siwr, dyna ben.

Na, sbiwch, nid ydyw y spectol yn syth,
Ac fe ddelir y papur i fyny'r tu chwith ;
Er eiste'n lle Nain yn y gader wen fawr,—
Dacw goesau rhy fyrion i gyrraedd y llawr.

Nid Nain ydyw hon,
Ond Gwen fach ddireidus a'i dau lygad llon.

COEDEN OLEWYDD.

Y MAE coed olewydd trwy holl barthau'r byd, o China i Chili, ond yr Eidal yw eu hoff gartref yn Ewrob. Y maent i'w cael yn ein gwlad ni, ond mewn cysgod yn unig. Darlennwn am danynt

yn aml yn y Beibl; yr oedd mynydd y gŵyr pob plentyn yng Nghymru am dano yn dda, Mynydd yr Olewydd, ar gyfer Jerusalem. Y mae dros ddeg ar hugain o fathau o goed olewydd. Dywedir mai yn Syria a gwlad Canan yr oedd y pren gyntaf; ond, gan mor ddefnyddiol ydyw, y mae erbyn hyn wedi ei blannu ym mhob gwlad bron, ond yn y gwledydd oeraf i gyd.

Llawer gwaith y bum yn edrych ar y goed olewydd ar ochr Fiesole uwchben Florens yn yr Eidal. Y mae eu dail o wyrdd tywyll, ond odditanynt y maent bron yn wynion. Pan ddoi awel o wynt i godi'r dail, byddai'r wlad werdd fel pe'n troi'n wen i gyd. Blodau gwynion bach ydyw'r blodau. Crwn neu hirgrwn yw'r ffrwyth; weithiau'n wyrdd, weithiau'n laswyd, weithiau'n wyn.

Y mae'r goed olewydd o bob maint, yn ol fel bo'r hinsawdd a'r ddacar y tyfant o honi. Dywedir am un yr oedd ei boncyff dros ugain troedfedd o gylchedd; a thybid ei bod yn saith gant o flynyddoedd o oed.


Y mae'r olewydden yn ddefnyddiol iawn. Y mae yr olew geir o'i ffrwyth yn werthfawr ryfeddol; a rhydd ef yn hael iawn. Y mae ei dail a'i rhisgl yn werthfawr fel meddyginiaeth hefyd.

YSGUBAU ! YSGUBAU ! OHO !

YN Nynfaint, lawer blwyddyn yn ol, yr oedd gŵr yn gorwedd yn glaf ar ei wely. Yr oedd yn dlawd iawn, ac yr oedd ganddo bedwar o blant bach amddifaid. Gwneyd ysgubau oedd ei waith, a mynd â hwy ar gefn mul i'w gwerthu yn y dref. Yr



YSGUBAU ! YSGUBAU ! OHO !



oedd yn rhy wael i fynd â'r ysgubau yn ol ei arfer, ac yr oeddynt heb damaid o fara yn y ty.

"Bob," ebai'r tad wrth ei fachgen hynaf, "a fentri di i'r dref i dreio gwerthu ysgubau, ac i brynnu torth ? Y mae'n ddydd Sadwrn heddyw, a rhaid i ni gael rhywbeth at yfory."

"Mi wnaif fy ngoreu, fy nhad," ebe'r bachgen.

Gwisgodd ei ddillad goreu, dillad tlodaidd ond glân, oedd ei fam wedi eu gwneyd iddo'n ofalus. Wylai'r tad yn ddistaw wrth weld y smoc wen a'r hosanau cynnes a'r cap cartref ; cofiai mor ofalus oedd eu mham am y plant pan oedd yn fyw. A heddyw dyma hwy heb damaid o fara yn y ty.

Yr oedd yn fore oer, ond eychwynnodd Bob yn galonnog ar gefn Jeri'r mul tua'r dre, a baich o ysgubau o'i flaen. Ai dan ganu, gan feddwl am y dorth fawr a'r melusion fyddai ganddo'n dod adre. Nid oedd wedi medru gwneyd dim erioed o'r blaen i helpu ei dad a'r plant. Ond heddyw teimlai ei hun yn ddyu.

Duan o Bob, ni wyddai fawr am y dref. Bu'n crwydro drwy'r dydd hyd yr heolydd, heb damaid o fwyd, gan gynnyg ei ysgubau mewn llais gwan. Ond ni phrynnai neb yr un, chwaddai llawer am ei ben, a rhogodd un ef am gynnyg ysgub iddo. Yr oedd y nos yn dod, a dechreuodd y bachgen wylo, gan siom ac anwyd ac eisieu bwyd. Meddyliai am ei dad ar ei glaf wely, ac am y plant bach yn disgwyl ei weld yn dod adref â bwyd iddynt. A dyma yntau'n methu gwerthu yr un ysgub.

Pan oedd mewn anobaith mawr, dyma fachgen hÿn nag ef heibio, mewn dillad trwsiadus a da. Yr oedd dau ddyu ar ben drws newydd wawdio Bob, gan beri

iddo roddi'r ysgubau'n fwyd i'r mul. Wylai yntau'n chwervw. Gofynnodd y bachgen dieithr iddo am ba beth yr oedd yn wylo; a dywedodd Bob yr hanes iddo i gyd trwy ei ddaagrau.

"Paid a wylo," ebe'r bachgen caredig, "ni a'u gwerthwn i gyd cyn nos." Troisant yn ol drwy'r ystrydoedd. Cymerodd Ernest Martin ysgub ym mhob llaw, a dechreuodd waeddi dros y fan,— "Ysgubau! Ysgubau! Oho!" Daeth y bobl i bennau eu drysau, ac yr oedd pawb am brymu ysgub gan fab y Plas. Ymhell cyn nos yr oedd pob ysgub wedi ei gwerthu. Aeth Bob â llond ei boced o arian adref, heblaw digon o fwyd am bythefnos. Ac yr oedd llawenydd mawr yn y cartref flawd pan ddaeth Bob adre.

Ymhén ugain mlynedd wedi hyn, yr oedd catrawd o wŷr Dyfnaint yn un o frwydrau gwaedlyd y Crimea, ac yn gorfod cilio o flaen y gelyn. Yr oedd y Rwsiaid yn eu herlid ar ffrwst, ac yr oeddynt yn ceisio cyrraedd bryn gerllaw cyn i'r gelyn eu gorddiwes. Wrth iddynt encilio felly, elwyfwyd y Capten Ernest Martin, a syrthiodd i lawr. Cyn pen y deng munud byddai meirch filwyr y gelyn yn ei fathru dan draed. Cyddiodd milwr cryf ynddo, a chludodd ef ymlaen yn ei freichiau.

"Filwr dewr," ebe'r capten, "gollwng fi i lawr i farw, ac achub dy fywyd dy hun."

"A ydych yn cofio fel y gwerthasoch yr ysgubau imi ugain mlynedd yn ol," ebe Bob, "mi a af â chwi i ddiogelwch neu fe fyddaf farw gyda chwi." Cyrhaeddasant y bryn cyn i'r gwŷr meirch eu dal. Rhoddodd Bob y capten i lawr, a safodd i wynebu'r gelyn o'i flaen. Medrodd dafu pob march yn ei ol, er cadarned yr ymgvrech, nes y gwelwyd y Welsh Fusiliers



“ Dal di'r ysten, daw'r dwfr yn union.”

yn dod yn gymorth iddynt. Taflwyd y Rwsiaid yn eu holau, a thra yr oedd gynau'r Cymry'n tywallt cawod o dân ar y gelyn, cariodd Bob y capten clwyfedig i ddiogelwch. Gwellhaodd ei glwyfau, ac yr oedd llawenydd yn y Plas pan glywyd fod mab yr ysgubwr wedi cadw bywyd Ernest trwy beryglu ei fywyd ei hun.

CYMHWYNAS.

YR oedd geneth fechan unwaith yn methu cael dwfr i'w hysten o bwmp y pentref. Os rhoddai'r ysten yn y gistfaen oedd o dan big y pwmp, a mynd i ysgwyd braich yr hen bwmp, deuai'r dwfr allan yn bistyll mawr, ond ni ddisgynai i'r ysten. Os ai i ddal yr ysten o dan y big, nid oedd ei braich yn ddigon hir i gyrraedd braich y pwmp. Ac felly yr oedd yr eneth fach mewn trallod mawr.

Yr oedd amryw blant a phobl segur y pentref yn ymyl, ond ni wnaent hwy ond chwerrhin yn uchel an ben ymdrechion ofer y plentyn. Daeth bachgen o'r wlad heibio, a gwelodd fod yr eneth fechan yn wylo. Aeth ati yn y fan; gwnaeth iddi hi ddal y llestr, ac ysgydwodd yntau fraich yr hen bwmp yn ol a blaen nes llenwodd yr ysten o ddwfr.

Ymhên wytinosau wedyn rhedodd cerbyd ar draws bachgennyn yn yr heol lle'r oedd tad Mair yn byw, a thorrodd ei goes. Gwelodd Mair mai'r bachgennyn caredig wnaethai gymhwynas â hi oedd, a rhedodd i ddweyd wrth ei thad. Cariodd ei thad y bachgen i'r tŷ; cafwyd meddyg ato, a chafodd gartre cysurus nes dod yn holliach drachefn.

BEIBL COLL.

YCHYDIG ddyddiau'n ol yr oedd geneth felynwallt, dlodaidd yr olwg arni, yn sefyll fel tyst yn un o lysoedd Lerpwl, ac ni wyddai neb ar wyneb y ddaear beth oedd yn ddweyd, gan ddieithried ei hiaith. Yr oeddwn newydd daro ar hen gyfaill i mi, un o ysgolheigion Slaфонаidd goreu'r oes, a daethom i'r llys pan oedd yr eneth yn sefyll yn fud o flaen ei chroes-holwr. Wedi gadael y tystle daliai'r eneth i wylo ac i ocheneidio, gan ruddfan ambell i air dieithr, hyd nes y dechreuodd fy nghydymaith siarad â bi, gan ei chysuro yn ei hiaith ei hun. Lithuaneg oedd yn siarad, ac yr oedd yn un o gwmi mawr o ymfudwyr i'r Amerig. Yr oedd wedi colli ei chyfeillion yn Lerpwl, ni wyddai ddim am ei llong, a rhywfodd neu gilydd yr oedd wedi ei dwyn i lys cyfraith fel tyst.

Wedi gwneyd yr hyn a fedrem dros yr eneth, dechreuodd fy nghyfaill a minne ysgwrsio am anhawsterau'r teithiwr uniaith. Meddem brofiad ein dau,— yr oeddym yn gwybod beth oedd methu esbonio pan mewn cyfyngder ac mewn perygl am ein bywyd, er y buasai un frawddeg yn dofi llid ein gwrthwynebwyd, pe medrasem ei dweyd. “Bum mewn carchar ym mhellteroedd Siberia unwaith,” ebe'm cyfaill, “wedi methu dweyd yn iaith y llywodraethwr beth oeddwn. Mi freuddwydiais yn y carchar hwmw fy mod yn perthyn i genedl heb Feibl, a'm bod yn sefyll o flaen gorseddfainc Duw heb ddeall iaith y llys.”

Cenedl heb Feibl! Ehdai'm meddwl at Gymru'r unfed ganrif ar bymtheg, pan ddywedai rhai na chair Cymry siarad â Duw hyd nes y dysgent Saesneg, a

phan erfyniai William Salisbury ar Frenhines Lloegr adael i bob tafod glodfori Duw. Wedi hynny, bu Cymry'n cyfieithu'r Beibl i drigolion bryniau'r India a thraethellau Madagascar, fel y clodforai pob tafod Dduw.

“ Bu'm gwlad i,” ebe fi wrth yr ysgolhaig Slafonaidd hwmw, “ heb ddeall ei Beibl am gant a hanner o flynyddoedd wedi ei gael, a hawdd y gallasai Beibl prydferth yr Esgob Morgan fynd ar goll.” “ Felly yr aeth Beibl yr eneth wylofus acw,” atebai'r gŵr dysgedig, “ yr wyf newydd ddarganfod fod Beibl Lithuanaidd mewn bod yn 1660, ond erbyn heddyw, hyd y gwyddis, nid oes gopi o hono ar wyneb y ddaear. Y mae'r erlidiwr wedi gorffen ei waith.”

Felly y bu gyda Beibl un genedl arall. Ar lethrau'r Pyrenees y mae cenedl y Basques yn byw, ac ni ŵyr ieithyddwyr pwy oedd eu brodyr a'u cefndryd, os nad cyn-drigolion mynyddoedd Prydain, sydd wedi gadael ambell enw, a hynny'n unig, ar ambell afon neu garreg neu fryn. Yr oedd Margaret o Valois, brenhines Navarre,— Ann Griffiths y Diwygiad Ffrengig,— wedi rhoddi iddynt Feibl yn eu hiaith eu hunain yn amser y Diwygiad Protestanaidd. Ond yn ystod erledigaethau ofnadwy'r ail ganrif ar bymtheg, canrif adfywiad Eglwys Rufain, collwyd y Beibl o'r mynyddoedd hynny'n llwyr; un copi'n unig oedd ar gael pan ail gyfieithiwyd y Beibl i'r iaith ddieithr honno gan Gymdeithas y Beiblau, ac yn Llundain yr oedd hwmw.

Dyna ddwy esiampl o genedl wedi colli ei Beibl: a wyddis am Feibl wedi colli'r genedl a'i darlennai? Y mae llawer Beibl coll, ond a oes yn rhywle Feibl mud? Breuddwydiais, y noson wedi llenwi papur Cyfrifiad 1891, fod cyfrifiad wedi dod pan nad oedd

neb yn medru deall y Beibl Cymraeg. Yr oedd Duw'n siarad â'n horwyrion mewn iaith ddieithr. Yr oedd Beibl Cymru'n fud.

Nid oes dim rydd gymaint o gryfder i fywyd cenedl a chael Beibl yn ei hiaith ei hun. Buasai'r iaith Gymraeg wedi darfod oddiar wyneb y ddacar ymhell cyn hyn oni buasai am y Beibl. Y Beibl ydyw'r peth Cymraeg olaf i Gymro golli ei afael ynddo. Ar lan rhyw afon bellennig neu yn nwndwr rhyw dref fawr y mae gwraig llawer Cymro'n Saesnes, ei blant yn Saeson, ei gymdogion yn Saeson, ond, hyd y diwedd, y mae ei Feibl yn Feibl Cymraeg. Proffwyda rhai y bydd y Beibl Cymraeg rywbyrd,—fel y parot glywodd Humboldt yn siarad iaith llwyth oedd wedi ei difodi,—heb neb i'w ddeall. Nid aiff Beibl Cymru byth yn Feibl coll, nad eled ychwaith yn Feibl mud.



GEIRFA.



PAN yn chwilio am eiriau, cofier fod y llythyren c, p, t, g, b, d, ll, m, rh, yn newid yn nechreu gair, or engraifft.—

cath	ei gath	fy nghath	ei chath.
pen	ei ben	fy mhen	ei phen.
troed	ei droed	fy nhroed	ei throed.
goneth	ei eneth	fy ngeneth.	
brawd	ei frawd	fy mrawd.	
darlun	ei ddarlun	fy narlun.	
llyfr	ei lyfr.		
mam	ei fam		ei mhau (/).
rhan	ei ran.		

Rhoddir *h* weithiau o flaen gair, megis.—*enw*, ei *henw*; *aderyn*, ei *haderyn*.

Os methir cael ystyr gair a ddechroua gydag a, o, i, o, u, w, y, ceir ef. Iel rheol, drwy edrych dan y llythyren g.

Arwydda *m.* masculine; *f.* feminine; *f.* from; *sg.* singular; *pl.* plural; *pres.* present.



A, and.
A. AC, with.
A, 3 *sg. pres. fr.* myned.
ABER, *f.*, mouth of a river, stream.
ABWYDYN, *m.*, bait, worm.
ACH, *f.*, pedigree.
ACHOS, *m.*, cause; because.
ACHUB, to save.
ACW, yonder.
ADEC, *f.*, time, period.
ADELLADU, to build.
ADELLADWR, *m.*, builder.
ADEN, *f.*, wing.
ADERYN, *m.*, bird; *pl.* adar.
ADEDDIANNU, to repossess.

ADEFILION, *m. plu.*, ruins.
ADFYWIAD, *m.*, revival.
ADLODD, *m.*, second crop, latter-math.
ADNABOD, to recognize, to know.
ADREF, *m.*, home.
ADRODD, to narrate.
ADWAEN, to know.
ADDAW, to promise.
ADDFED, rip.
ADDOLDY, *m.*, house or place of worship.
ADDOLLAD, *m.*, worship.
ADDYSG, *f.*, learning, education.
AEL, *f.*, brow.

- AELWYD, *f.*, hearth.
 AETH, 3 *sg. perf.* myned.
 AF, 1 *sg. pres.* myned.
 AFIACH, unhealthy, in bad health.
 AFIECHYD, *m.*, illness, disease.
 AFLONYDD, restless.
 AFON, *f.*, river.
 AFRIFED, innumerable.
 AGOR, to open.
 AGORED, open.
 AGOS, near.
 ANGAU, *m.*, death.
 ANGHOFIO, to forget.
 ANGHYFANNEDD, desolute, uninhabited.
 ANGOR, *m.*, anchor.
 A'I, and his or her, with his or her.
 AI, 3 *sg. imperf.*, myned.
 AIFF, 3 *sg. pres.*, myned.
 AIL, second.
 ALCAN, *m.*, tin.
 ALLAN, out.
 AM, about, because.
 AMAETHDY, *m.*, farmhouse.
 AMAETHYDDOL, agricultural.
 AMBELL, some.
 AMCAN, *m.*, purpose.
 AMDDIFAD, orphan, destitute.
 AMDDIFFYN, to defend.
 AMGYLCH, about, around.
 AMHEUTHYN, dainty, luxurious.
 AMHOSIBL, impossible.
 AML, often, frequent.
 AMLWC, clear, evident.
 AMOD, *f.*, condition.
 AMRANT, *m.*, eyelid.
 AMRYLIWIOG, of various colours.
 AMRYW, several.
 AMSER, *m.*, time.
 AMYNEDDGAR, patient.
 ANADL, *f.*, breath.
 ANADU, to breathe.
 ANAEAROI, unearthly.
 ANESMWYTH, uneasy, uncomfortable.
 ANELU, to aim, to point at.
 ANFAD, villainous.
 ANFOESGAR, rude, unmannerly.
 ANFON, to send.
 ANHAW, more difficult.
 ANHAWSTER, *m.*, difficulty.
 ANIAL, *m.*, desert.
 ANIFAIL, *m.*, animal.
 ANOBAITH, *m.*, despair.
 ANOBEITHIO, to despair.
 ANODD, difficult.
 ANONEST, dishonest.
 ANRIEG, *f.*, gift.
 ANRRHYDEDD, *m.*, honour.
 ANRRHYDEDDUS, honour ble.
 ANTERTH, the highest point, prime; fierceness.
 ANWYD, *m.*, cold.
 ANWYL, dear.
 ANYMUNOL, unpleasant.
 AR, on.
 ARALL, other.
 ARCH, *f.*, coffin.
 ARDDERCHOC, excellent.
 ARFER, *f.*, custom, use.
 ARGLOWYDD, *m.*, lord.
 ARGRAFF, *f.*, impression.
 ARGRAFFU, to impress.
 ARIAN, *m.*, silver.
 AROGL, *m.*, smell.
 AROS, to stay.
 ARSWYD, *m.*, terror.
 ARWAIN, to lead.
 ARWROL, heroic.
 ASGWRN, *m.*, bone.
 ATELT, *f.*, board, plank, *pl.*, ystyllod.
 ASWY, left.
 ASYN, *m.*, ass.
 AT, to, towards.
 ATEB, to answer.
 AUR, *m.*, gold.
 AWD, *perf. pass.*, myned.
 AWDURDOD, *m.*, authority.
 AWEL, *f.*, breeze.
 AWN, 1 *pl. pres.*, myned.
 AWR, *f.*, hour; YN AWR, now.
 AWYDD, *m.*, desire.
 AWYR, *f.*, air.

- BACH, little, small.
 BACHGEN, *m.*, boy.
 BACH, *m.*, burden.
 BALCH, proud.
 BALMAIDD, bulmy.
 BAR, *m.*, bar, bolt.
 BARA, *m.*, bread.
 BARNU, to judge.
 BARVNIG, *m.*, baronet.
 BATH, *fr.* math.
 BAWEN, *f., fr.* pawen, paw.
 BEDD, *m.*, grave.
 BELLACH, further, at length.
 BENDITH, *f.*, blessing.
 BENTHYG, *m.*, loan.
 BERR, BER, *fr.* byrr and per.
 BERFA, *f.*, barrow.
 BERWI, to boil.
 BEUNYDDIOL, daily.
 BLAEN, point; o'r blaen.
 formerly.
 BLAENOR, *m.*, leader, chief.
 BLAWD, *m.*, flour.
 BLEW, *m. pl.*, hair.
 BLIN, tired.
 BLODEUYN, *m.*, flower. *pl.*
 blodau.
 BLWCH, *m.*, box.
 BLWYDDYN, BLYNEDD, *f.*, year;
 pl., blynyddoedd.
 BLYSIG, given to appetite.
 RO=BYDDO, *fr.* bod, to be.
 BO BO, *m.*, bogey man.
 BOCH, *f.*, cheek.
 BOD, to be.
 BOD, *m.*, being, person.
 BODD, *m.*, will, pleasure.
 RODDI, to drown.
 BONCYFF, *m.*, stump.
 BONEDDWR, *m.*, gentleman.
 BORDOR, *m.*, border.
 BORE, *m.*, morning.
 BOTWM, *m.*, button; *pl.*,
 botymau.
 BRADWRUS, traitorous.
 BRADYCHU, to betray.
 BRAF, fine.
 BRAICH, *f.*, arm; *pl.*, breichiau.
 BRAINT, *f.*, privilege.
 BRAN, *f.*, crow, *pl.*, brain.
 BRATHU, to sting, to bite.
 BRAW, *m.*, terror.
 BRAWD, *m.*, brother; *pl.*, brodyr.
 BRAWDOL, brotherly.
 BRAWDDEG, *f.*, sentence.
 BREFU, to low, to bleat.
 BRENIN, *m.*, king.
 BRENNINOL, royal.
 BRENNINIAETH, *f.*, kingdom.
 BRETHYN, *m.*, woollen cloth.
 BREUDDWYDIO, to dream.
 BRICSEN, *f.*, brick.
 BRIG, *m.*, top, summit.
 BRITHYLL, *m.*, trout.
 BRO, *f.*, neighbourhood, district.
 BRON, nearly.
 BRWYDR, *f.*, battle.
 BRWYN, *f.*, rushes.
 BRYN, *m.*, hill.
 BRYs, *m.*, haste.
 BRYsIO, to hasten.
 BUAN, swift, quick.
 BUCHEDD, *f.*, life, conduct.
 BUDR, dirty, foul.
 BUDD, *m.*, profit.
 BUDDUGOLIAETH, *f.*, victory.
 BUCAIL, *m.*, shepherd.
 BUWCH, *f.*, cow.
 BWBACH, *m.*, scarecrow.
 BWCH, *m.*, buck; *pl.*, bychod.
 BWLCH, *m.*, gap.
 BWNDEL, *m.*, bundle.
 BWRDD, *m.*, table.
 BWRLYMIO, to bubble.
 BWTRI, *m.*, pantry.
 BWTHYN, *m.*, hut, cottage.
 BWYD, *m.*, food.
 BWYTA, to oat.
 BYCHAN, small.
 BYD, *m.*, world.
 BYDDIN, *f.*, army.
 BYRR, short.
 BYS, *m.*, finger.
 BYTH, ever.
 BYW, to live.
 BYWYD, *m.*, life.

- CABAN, *m.*, cabin.
 CADARN, strong.
 CADER, CADAIR, *f.*, chair.
 CADLES, *m.*, croft, yard.
 CADW, to keep.
 CADWEN, *f.*, chain.
 CAE, *m.*, field.
 CAEL, to get, to have.
 CAER, *f.*, fort.
 CAER, Chester.
 CAERDYDD, *f.*, Cardiff.
 CAER GAIANT, *f.*, Canterbury.
 CAER GYBI, *f.*, Holyhead.
 CAETH, bound, confined.
 CAETHIWD, *m.*, slavery.
 CAETHWAS, *m.*, slave, bondman.
 CAFN, *m.*, trough.
 CAIFF, 3 *sg. pres. & fut.*, cael.
 CALCHEN, *f.*, limestone.
 CALED, hard.
 CALEDU, to harden.
 CALON, *f.*, heart.
 CALONNOG, heartily, in good heart.
 CALL, wise.
